sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Diwygiedig 2018-2033
Cynllun Datblygu Lleol

# Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas
# Adroddiad Technegol



Rhagfyr 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyflwynir elfennau wedi'u mapio a gynhyrchwyd o'r asesiad hwn ar Fap Cynigion a Mapiau Mewnosod yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig**

**Mapped elements produced from this assessment are presented on the Second Revised LDP Proposal Map and Insets Maps**

# Contents


**1. Cyflwyniad ... 3**

1.2. Diben yr Asesiad Hwn ... 4
1.3. Diffinio'r 'dull Seilwaith Gwyrdd a Glas' ... 4
1.4. Beth yw Seilwaith Gwyrdd a Glas? ... 5

**2. Gwerth Seilwaith Gwyrdd a Glas ... 6**

**3. Y Fframwaith Deddfwriaethol ... 12**

3.2. Methodoleg ... 17

**4. Gwaelodlin Seilwaith Gwyrdd a Glas (Cam 1) ... 19**

4.1. Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas a Ystyriwyd ... 19
4.2. Neilltuo Swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas ... 21
4.3. Methodoleg Mapio ... 23

**5. Nodi blaenoriaethau (Cam 2) ... 27**

5.2. Y Cyd-destun Rhyngwladol ... 27
5.3. Y Cyd-destun Cenedlaethol ... 29
5.4. Cyd-destun Rhanbarthol ... 30
5.5. Y Cyd-destun Lleol ... 31

**6. Adnabod Cyfleoedd (Cam 3) ... 37**

**6.2. Llesiant a Hamdden** ... 37
**6.3. Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau** ... 38
**6.4. Coetiroedd a Llygredd Awyr** ... 39
**6.5. Diogelu Ansawdd Dŵr** ... 40
**6.6. Gweithredu Polisi** ... 41

**7. Asesu Safleoedd yn y CDLld (Cam 4) ... 43**

**8. Adolygu (Cam 5) ... 59**

**8.2. Casgliad** ... 60

**Atodiadau ... 61**

Atodiad A: Teipoleg Seilwaith Gwyrdd a Glas a Mapio Ffynonellau Data ... 61
Atodiad B: Cysoni Themâu Seilwaith Gwyrdd a Glas - Asedau a Swyddogaeth. ... 65
Atodiad C: Nodi Materion y CDLl diwygiedig. ... 66
Atodiad D: Ymgysylltu â rhanddeiliaid ... 68

**Cyfeiriadau ... 75**

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **ACA(oedd)** | Ardal(oedd) Cadwraeth Arbennig |
| **ACLl(au)** | Awdurdod(au) Cynllunio Lleol |
| **AGA(oedd)** | Ardal(oedd) Gwarchodaeth Arbennig |
| **ALl** | Awdurdod(au) Lleol |
| **ARhC** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| **CCA** | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| **CDLl(d)** | Cynllun Datblygu Lleol (diwygiedig) (a elwir hefyd y Cynllun) |
| **CGC** | Corff Gwasanaeth Cyhoeddus |
| **CMM** | Caeau Mynydd Mawr |
| **CNC** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **CSC** | Cyngor Sir Caerfyrddin (ardal unedol a elwir yn ‘Sir’) |
| **DCGHT** | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| **DSN** | Datrysiadau Seiliedig ar Natur |
| **GNLl** | Gwarchodfa(feydd) Natur Lleol |
| **HTC** | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |
| **NDCau** | Nodau Datblygu Cynaliadwy |
| **PANC** | Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol |
| **PCBB** | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| **PCC** | Polisi Cynllunio Cymru |
| **RhBE** | Rhwydweithiau Blaenoriaeth Ecolegol |
| **RhGAN** | Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol |
| **RhGG** | Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol |
| **SDCau** | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| **SDdGA** | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| **SGG** | Seilwaith Gwyrdd a Glas (Asesiad – yn gyfystyr â GIA) |
| **SMEBCA** | Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a’r Aberoedd |

# 1. Cyflwyniad

1.1.1. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn ffordd effeithiol o ategu'r amgylchedd adeiledig a hynny wrth liniaru amrywiol heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n berthnasol i gyflawni datblygu cynaliadwy. Yn ei hanfod mae'n canolbwyntio ar wireddu'r manteision a ddaw yn sgil nwyddau cyhoeddus, gwasanaethau ecosystemau ac adnoddau naturiol, gan hefyd ddiogelu'r amgylchedd er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol. Mewn llawer o achosion gall gwella'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas leihau costau'n sylweddol i unigolion, busnesau (gan gynnwys datblygwyr) a chyrff cyhoeddus, a hynny gan wella llesiant ein cymunedau a lleihau'r angen am seilwaith llwyd (a all fod yn ddrytach i'w adeiladu a'i gynnal). Mae astudiaethau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid a gynhaliwyd ar hyd a lled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol wedi tystio i fanteision Seilwaith Gwyrdd a Glas. Mae ymchwil o'r fath wedi cael ei hyrwyddo a'i grynhoi'n fanwl gan lawer o sefydliadau amgylcheddol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, ac Ymchwil Coedwigoedd, a chaiff ei drafod yn nes ymlaen ym Mhennod 2.

1.1.2. Ar lefel genedlaethol mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau i gyrff cyhoeddus ar integreiddio Seilwaith Gwyrdd a Glas i'r gwaith o wneud penderfyniadau, yn enwedig ym maes cynllunio. Mae hyn yn unol â'r ffocws strategol a'r uchelgais rhyngwladol o ddatrys newid yn yr hinsawdd, a chaiff ei amlygu ymhellach drwy'r £8.1bn o gymorth a fuddsoddwyd yn ddiweddar i ddatblygu seilwaith cysylltiedig[1]. Ar lefel leol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin ei hun wedi datgan argyfwng hinsawdd a natur[2], ac mae wedi ymrwymo i ddatrys y materion sylfaenol sy'n achosi'r rhain. O fewn ein pecyn cymorth cyfunol ar gyfer llunio polisïau, mae Seilwaith Gwyrdd a Glas ystyriol yn parhau i fod yn flaenllaw ym maes hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy a darparu atebion ar gyfer materion o'r fath.



## 1.2. Diben yr Asesiad Hwn

1.2.1. Pwrpas yr asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol (a elwir fel arall yn Asesiad Seilwaith Gwyrdd) yw llywio datblygiad a gweithrediad yr $2^{il}$ Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo (CDLl diwygiedig) 2018–2033. Mae'r dogfennau hyn yn ffurfio rhan allweddol o sylfaen dystiolaeth y CDLl diwygiedig ac yn eistedd ochr yn ochr ag asesiadau cysylltiedig eraill megis yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn helpu i feithrin proses gynhwysol a thryloyw wrth ddatblygu polisïau rheoli tir cysylltiedig, ac yn y pen draw mae'n helpu i sicrhau bod y CDLl diwygiedig yn cael ei integreiddio ag anghenion lleol, y fframwaith deddfwriaethol a'r blaenoriaethau strategol (fel y trafodir yn ddiweddarach).

1.2.2. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) "*chwilio am gyfleoedd i wella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd, peidio â darnio cynefinoedd a sicrhau manteision ehangach seilwaith gwyrdd ar hyd y rhwydweithiau trafnidiaeth*" trwy gynnal Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas (Paragraff 4.1.33, Rhifyn 11)[3]. Fel y sefydlir yn ddiweddarach ym Mhennod 4, mae'r asesiad presennol i bob pwrpas yn ffurfio'r waelodlin amgylcheddol ar gyfer mynd ati i reoli a gwella adnoddau naturiol y Sir, yn unol â'r twf a ddarperir gan y CDLl diwygiedig. Yn ogystal, mae'n fodd o gefnogi gweithrediad polisïau cynllunio lleol gyda'r nod o hyrwyddo dull Seilwaith Gwyrdd a Glas ym maes cynllunio defnydd tir, ac yn sicrhau bod Seilwaith Gwyrdd a Glas yn ffurfio rhan annatod (a sylweddol) o ddatblygiadau'r dyfodol.

## 1.3. Diffinio'r 'dull Seilwaith Gwyrdd a Glas'

1.3.1. Mae dull Seilwaith Gwyrdd a Glas o gynllunio, dylunio a rheoli defnydd tir yn ein galluogi i gyflawni mwy o'r tir mewn ffordd gynaliadwy. Trwy ystyried yr ystod eang o swyddogaethau y gall Seilwaith Gwyrdd a Glas eu cyflawni ar yr un pryd, gall Seilwaith Gwyrdd a Glas gyfoethogi'r prif ddefnydd o'r tir gan ddatgloi nifer o fuddion eraill. Yn y bôn, nod Seilwaith Gwyrdd a Glas yw rheoli'n gynaliadwy y pwysau niferus (sy'n aml yn groes i'w gilydd) am dai, diwydiant, trafnidiaeth, ynni, amaethyddiaeth, cadwraeth natur, hamdden ac estheteg. Mae gweithredu Seilwaith Gwyrdd a Glas yn golygu cymaint mwy na'r ddarpariaeth draddodiadol o dir glas megis parciau a gerddi. Rhaid i weithredu dull strategol sy'n canolbwyntio ar ddarparu Atebion Seiliedig ar Natur (NbS) fod yn amlochrog, a dylai gwmpasu mentrau eraill i fynd i'r afael ag ystod o heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol.

## 1.4. Beth yw Seilwaith Gwyrdd a Glas?

1.4.1. Caiff seilwaith gwyrdd ei ddiffinio gan Polisi Cynllunio Cymru fel "*rhwydwaith amlswyddogaethol o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, coridorau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n britho ac yn cysylltu lleoedd*"[4]. Ar raddfa tirwedd, gall hyn gynnwys ecosystemau cyfan megis gwlyptiroedd, coetiroedd, rhostiroedd a dyfrffyrdd. Ar lefel leol, gallai gynnwys parciau, caeau, llwybrau cerdded/Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau beicio, tir comin, tir mynediad agored, camlesi, rhandiroedd, mynwentydd, tiroedd wedi'u tirlunio a gerddi. Ar raddfeydd llai, gall ymyriadau trefol unigol (e.e. coed stryd, ymylon ar ochr y ffordd, a thoeau gwyrdd) i gyd gyfrannu at rwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas, ei ymarferoldeb, a'r gwasanaethau ecosystemau a'r nwyddau cyhoeddus cyffredinol sy'n deillio ohonynt.

1.4.2. I gydnabod y rôl bwysig sydd gan Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) sy'n seiliedig ar natur a chynefinoedd dyfrol megis gwlyptiroedd a phyllau o fewn yr amgylchedd adeiledig, gwneir nodiant mwy cyflawn o Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn yr adroddiad hwn.

1.4.3. Pan gaiff Seilwaith Gwyrdd a Glas ei gynllunio, ei lunio, a'i reoli'n briodol, mae ganddo'r potensial i ddarparu ystod eang o fanteision i bobl ac i fywyd gwyllt. Mae cynllunio sydd wedi'i integreiddio â Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cael ei ystyried fwyfwy fel opsiwn amgen yn lle ôl-osod seilwaith llwyd costus; fodd bynnag, mae'n gofyn am gymryd camau gweithredu bwriadol ar ail-lunio ein ffyrdd traddodiadol o weithio. Yn ogystal, fel llofnodwr Siarter Creu Lleoedd Cymru, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i ddatblygu tai cynaliadwy o ansawdd. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas sydd wedi'i integreiddio'n ystyriol helpu i hyrwyddo egwyddorion creu lleoedd sy'n canolbwyntio ar Bobl a Chymuned, Symud, Parth Cyhoeddus, Lleoliad a Hunaniaeth, ymhlith eraill.

# 2. Gwerth Seilwaith Gwyrdd a Glas

2.1.1. Mae'r bennod hon yn trafod y manteision y gall Seilwaith Gwyrdd a Glas eu darparu ar draws sawl thema.

### Iechyd a Llesiant

2.1.2. Dangosodd ymchwil fod treulio amser ym myd natur ac o'i gwmpas yn cynnig amddiffyniad rhag nifer o glefydau gwahanol, gan gynnwys iselder, diabetes, gordewdra, ADHD, clefyd cardiofasgwlaidd a chanser[5]. Mae ymchwil arall wedi dangos bod pobl yn fwy egnïol os ydyn nhw'n byw mewn amgylcheddau naturiol deniadol sy'n ysbrydoli[6].

2.1.3. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas hefyd gael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr aer trwy amsugno llygryddion aer yn uniongyrchol a rhyng-gipio gronynnau ar arwynebau dail, trwy ostwng tymheredd yr aer trwy leihau ffurfiant osôn, a thrwy gynhyrchu ocsigen.

2.1.4. Mae ymchwil sy'n cysylltu llesiant a Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi hen ennill ei blwyf, ac mae wedi dangos:

- Bod pobl a symudodd i fyw mewn ardaloedd â darpariaeth uchel o fannau gwyrdd yn profi gwelliant ar unwaith a pharhaus yn eu hiechyd meddwl[7];
- Bod pobl oedd yn byw ger man gwyrdd yn cael llai o broblemau iechyd meddyliol a chorfforol na phobl mewn ardaloedd mwy adeiledig[8];
- Bod pobl sy'n byw bellaf o barciau cyhoeddus 27% yn fwy tebygol o fod yn rhy drwm neu'n ordew o gymharu â phobl yn byw ger parciau[9];
- Bod cyfraddau asthma ymhlith plant yn gostwng 25% am bob 343 coeden ychwanegol fesul cilomedr sgwâr yn y lleoedd maent yn byw ynddynt[10];
- Dywedodd rhwng 90 a 94% o'r bobl a gymerodd ran mewn ymarferion gwyrdd fod eu hiechyd meddyliol a chorfforol wedi gwella, ac mae ymchwil hefyd yn dangos fod gweithgarwch corfforol mewn amgylcheddau gwyrdd yn cael mwy o fudd seicolegol a ffisiolegol na gweithgarwch corfforol mewn lleoliadau eraill[11].

## Ymdeimlad o le

2.1.5. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas wneud cyfraniad cadarnhaol i wella ansawdd ac ymdeimlad o le. Gall darparu mannau gwyrdd o ansawdd ac sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda gael effaith gadarnhaol ar weithgareddau a busnesau lleol, a gwella'r ddelwedd sydd gan amgylcheddau trefol, a hyder trigolion lleol a buddsoddwyr posibl. Dangoswyd fod Seilwaith Gwyrdd a Glas amlswyddogaethol, wedi'i leoli'n agos at leoedd y mae pobl yn byw, yn cymdeithasu ac yn gweithio ynddynt, yn strategol bwysig i ansawdd bywyd[12]. Dangoswyd hefyd bod yna gysylltiadau cynhenid rhwng y buddion sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth ac iaith a diwylliant[13], gyda llawer o eiriau ac ymadroddion unigryw yn deillio o'r byd naturiol.

## Cydlyniant Cymdeithasol

2.1.6. Gall mannau gwyrdd o ansawdd gael effaith gadarnhaol ar sawl dangosydd cymdeithasol allweddol. Er enghraifft, dangoswyd fod ychwanegu coed stryd a llecynnau gwyrdd hygyrch yn gwneud ardaloedd yn fwy deniadol, ymlaciol, cyfforddus a chroesawgar[14]. Yn ogystal, gall Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i godi lefelau rhyngweithio ac integreiddio cymdeithasol, gan ddod ynghyd ag unigolion o grwpiau cymdeithasol gwahanol nad ydynt o reidrwydd yn rhyngweithio fel arfer, ynghyd â helpu i hwyluso ymdeimlad o gymuned[15].

2.1.7. Dangosodd ymchwil fod 83% yn fwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgarwch cymdeithasol mewn mannau gwyrdd o gymharu â lleoliadau 'nad ydynt yn wyrdd'. Mewn un astudiaeth, dangoswyd fod mannau gwyrdd mewn datblygiad tai yn cynyddu gweithgarwch cymdeithasol ac yn creu ymdeimlad o gymuned, gyda phobl yn dysgu mwy am eu cymdogion ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi[16].

2.1.8. Awgrymwyd hefyd fod Seilwaith Gwyrdd a Glas yn lleihau lefelau troseddu mewn ardaloedd, gan fod mannau gwyrdd yn aml yn cael eu defnyddio a’u goruchwylio fwy[17]. Gall clymau cymdeithasol fod yn gryfach mewn cymunedau gwyrddach, mae lefelau trais domestig yn is yn gyffredinol, a dangoswyd fod lefelau bwrgleriaeth a throseddu cyffredinol gryn dipyn yn is mewn cartrefi ger mannau naturiol[18].

## Economi

2.1.9. Gall diogelu a buddsoddi mewn Seilwaith Gwyrdd a Glas gefnogi llwyddiant economaidd a thwf cynaliadwy. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas a’r amgylchedd naturiol yn sail i’n heconomi, gan ddarparu nifer enfawr o gynhyrchion a gwasanaethau sydd werth biliynau o bunnoedd i economïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol[19]. Mae

tirwedd, amgylchedd a bywyd gwyllt ein gwlad ymhlith ei hadnoddau mwyaf, sy'n werth mwy na £8bn i economi Cymru[20].

*Buddion llesiant*

2.1.10. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas hygyrch ac o ansawdd gynnig nifer o fuddion iechyd a llesiant posibl, a all yn eu tro greu effeithiau economaidd cadarnhaol. Yn y DU, dangoswyd fod mannau gwyrdd werth o leiaf £30 biliwn y flwyddyn mewn buddion iechyd a llesiant[21]. Gellid arbed £21 biliwn arall y flwyddyn os gallai pawb fanteisio ar fannau gwyrdd[22]. Mae buddion iechyd byw gyda golwg o fan gwyrdd werth hyd at £300 y person y flwyddyn.

*Prisiau eiddo*

2.1.11. Dangosodd ymchwil y gallai prisiau eiddo yn y DU gynyddu hyd at 34% yn sgil buddsoddiad mewn Seilwaith Gwyrdd a Glas. Canfu astudiaeth achos gan y Comisiwn Coedwigaeth fod prisiau eiddo yn codi mewn ardaloedd yn amgylchynu coetir cymunedol a'i fod hefyd wedi symbylu datblygiadau newydd gwerth £75 miliwn. [23] Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas hefyd helpu datblygwyr i wneud safleoedd yn fwy hyfyw trwy ddefnyddio natur aml-swyddogaethol Seilwaith Gwyrdd a Glas, megis cyfuno gofynion tir agored gyda gofynion SuDS a bioamrywiaeth.

*Gweithgarwch Economaidd*

2.1.12. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas hygyrch ddenu ymwelwyr ac arwain at fwy o fasnach gyda busnesau lleol a swyddi cysylltiedig. Yn Bruges, amcangyfrifwyd bod Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi cyfrannu €5.6m i'r economi leol dros gyfnod o 20 mlynedd[24]. Yn y DU, dangoswyd fod adfywio Glasgow Green wedi arwain at bron i ddyblu'r buddsoddiad gwreiddiol o £15m yng ngwariant ymwelwyr a'i fod hefyd wedi creu 35 o swyddi amser llawn newydd[25]. Yng Nghymru, denodd Llwybr Arfordir Cymru bron i dair miliwn o ymwelwyr ac roedd yn werth tua £16m i economi Cymru rhwng 2011 a 2012 yn unig[26].

*Cynhyrchiant*

2.1.13. Mae gweithwyr sy'n gallu gweld amgylchedd gwyrdd o'u desgiau yn profi 23% yn llai o amser i ffwrdd yn sâl. Mae'r gweithwyr hyn hefyd yn dweud bod ganddynt fwy o fodlonrwydd swydd, gyda'r buddion eraill yn cynnwys:

- Cynnydd o 15% mewn cynhyrchiant gweithwyr pan fydd planhigion yn cael eu rhoi mewn swyddfeydd;

- Cynnydd o 12% mewn amseroedd ymateb pan ym mhresenoldeb planhigion;

- Ar gyfartaledd, roedd gweithwyr â golygfeydd o goed a thirweddau yn cymryd 11 awr yn llai o absenoldeb salwch y flwyddyn o gymharu â gweithwyr heb olygfeydd o'r fath. Mae hyn yn cyfateb i arbediad cyfartalog o tua £1,600 fesul gweithiwr; a

- Mae gweithwyr sydd â golygfa o fyd natur yn delio â galwadau 6-7% yn gyflymach na'r rheiny heb olygfa o'r fath. Mae hyn yn creu arbedion cynhyrchiant blynyddol o tua £2,400 fesul gweithiwr [27].

## Bioamrywiaeth

2.1.14. Un o brif achosion colli cynefinoedd a rhywogaethau yw defnydd tir anghynaliadwy. Er enghraifft, dros gyfnod o dair blynedd collwyd tuag 11,000 o goed amwynder oherwydd pwysau datblygu ychwanegol[28]. Fodd bynnag, mae diogelu a gwella cynefinoedd neu ddarparu rhai newydd trwy Seilwaith Gwyrdd a Glas yn gallu cynnig llochesi pwysig i fywyd gwyllt. Er enghraifft:

- Gall coedwigoedd trefol fod yn lloches i rywogaethau adar dan fygythiad mewn ardaloedd trefol[29];
- Gall toeau gwyrdd gynyddu bioamrywiaeth trwy ddarparu cynefin i rywogaethau di-asgwrn-cefn, adar a phlanhigion prin[30]; a
- Dangoswyd fod cydberthynas bositif rhwng ymddangosiad mamaliaid trefol mewn gerddi a seilwaith gwyrdd a glas sydd gerllaw[31].

2.1.15. Ymhellach, gall Seilwaith Gwyrdd a Glas wella cysylltiadau rhwng ardaloedd natur presennol, atal y broses o ddarnio a cholli cynefinoedd a gwella cydnerthedd ecolegol. Dangoswyd fod nodweddion Seilwaith Gwyrdd a Glas llinellol yn gwella symudedd rhai rhywogaethau yn y DU[32].

2.1.16. Gall gweithredu systemau draenio cynaliadwy (SuDS) wella ansawdd dŵr a thrwy hynny wella amrywiaeth rhywogaethau megis gwas y neidr a molysgiaid i lawr yr afon. [33]

2.1.17. Mae gan hyd yn oed lecynnau gwyrdd bychain y gallu i wella symudiad bioamrywiaeth. Mae cylchfannau ac ymylon ffyrdd sy'n cael gofal da yn cynnal ystod

eang o blanhigion a phryfed, yn enwedig felly os nad yw'r gwair yn cael ei dorri'n ormodol ac os oes planhigion a choed brodorol yn cael eu plannu arnynt[34].

## Newid yn yr Hinsawdd

2.1.18. Mae'n bwysig deall sut y gall tir mewn ardaloedd trefol a gwledig effeithio ar gyfradd allyriadau carbon ac achosion o lifogydd. Bydd Seilwaith Gwyrdd a Glas yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth gynyddu'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd yn ein trefi a'n pentrefi. Gall cynyddu'r arwynebedd o orchudd gwyrdd yn ein trefi a dinasoedd ddarparu nifer o fuddion wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd, fel y tystir isod.

*Dal a Storio Carbon*

2.1.19. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas dynnu nwyon tŷ gwydr allan o'r atmosffer. Mae coedwigoedd yn y DU yn tynnu tua 4 miliwn tunnell o garbon o'r atmosffer bob blwyddyn, sy'n cyfateb i 14.8 miliwn tunnell o garbon deuocsid.[35] Mae ymyriadau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar raddfa fechan hefyd yn gallu cyfrannu at ddal a storio carbon, a dangosodd astudiaeth y gallai 10 pot o flodyn o rywogaeth arbennig brosesu 1.3 cilogram o garbon deuocsid y dydd. [36] Mae'r canfyddiadau hyn i'w gweld yng Nghaerlŷr lle dangosodd un astudiaeth mai'r swm cyfartalog o garbon a storiwyd mewn Seilwaith Gwyrdd a Glas ar draws y ddinas oedd 31.6 tunnell yr hectar, gyda 7.6 tunnell yn cael ei storio mewn gerddi preifat yn unig.[37]

*Gostwng lefelau gwres*

2.1.20. Gan ddibynnu ar leoliad, math a maint, gall Seilwaith Gwyrdd a Glas gynnig cysgod, oeri ac ymyriad gwynt. Awgrymodd ymchwil yn ardal Manceinion Fwyaf y gallai cynyddu arwynebedd Seilwaith Gwyrdd a Glas 10% mewn ardaloedd ag ynddynt brinderau Seilwaith Gwyrdd a Glas arwain at effaith oeri o hyd at 2.5˚C[38]. Dangoswyd fod gan fannau agored â gorchudd coed sylweddol dymereddau is na'r rheiny sydd heb goed, oherwydd y cysgod o'r gwres a'r ymbelydredd uwch fioled[39].

*Ansawdd aer a dŵr*

2.1.21. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â gostyngiadau mewn ansawdd aer a dŵr. Priodolwyd yr effaith ynys gwres trefol i'r ffaith fod llygryddion megis cyfansoddion organig anweddol (COA) yn cael eu creu gan lefelau tymheredd ac oson, gan gynyddu lefelau tua 12% mewn rhai lleoliadau[40]. Dangosodd ymchwil yn Wrecsam fod coed lleol wedi tynnu 60 tunnell o lygryddion o'r awyr bob blwyddyn (oedd gyfwerth ag arbediad o £700,000 y flwyddyn i'r GIG)[41]. Yn ogystal, dangoswyd

fod cynefinoedd torlannol yn gwella ansawdd dŵr, trwy dynnu gwaddodion, plaladdwyr, maetholion a metelau trwm o gyrsiau dŵr.[42]

*Perygl o Lifogydd*

2.1.22. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas gynyddu capasiti cadw dŵr yr amgylchedd, rhywbeth allai liniaru effeithiau sychderau a llifogydd. Canfu astudiaeth yn Wrecsam fod coed yn rhyngdorri 27 miliwn litr o lawiad bob blwyddyn. Dangoswyd hefyd fod toeau gwyrdd yn cadw hyd at 87% o ddŵr glaw[43].

# 3. Y Fframwaith Deddfwriaethol

3.1.1. Yn genedlaethol mae Cymru wedi mynd drwy newid deddfwriaethol a pholisi sylfaenol, gan roi pwyslais cryf ar egwyddorion datblygu cynaliadwy i sicrhau llesiant hirdymor Cymru. Mae hyn yn cynnig llwybr i lywodraeth leol nodi a lliniaru'r risgiau a roddir ar adnoddau naturiol, a manteisio ar y cyfleoedd y maent yn eu darparu mewn proses effeithlon sy'n sicrhau bod y camau iawn, yn cael eu cymryd yn y lle iawn, ac ar yr adeg iawn.

3.1.2. Gellir dod o hyd i gasgliad cynhwysfawr o ddeunyddiau cynllunio a chynaliadwyedd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Serch hynny, mae crynodeb o'r rhai sy'n berthnasol i Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi'i gynnwys isod.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

3.1.3. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu fod cyrff cyhoeddus yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Golyga hynny fod rhaid iddynt geisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cyflawni heb effeithio'n andwyol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu rhai hwythau. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus weithio tuag atynt i sicrhau datblygu cynaliadwy (Ffigur 1).




**Ffigur 1** – Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

## Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol 2017

3.1.4. Ffocws y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yw rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r polisi'n cyflwyno tair Blaenoriaeth Genedlaethol. Y rhain yw:

- Cyflwyno Atebion Seiliedig ar Natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon; a
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd.

3.1.5. Mae'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol yn dangos fod buddsoddi yn ein hadnoddau naturiol, ac yn enwedig felly yn y meysydd sy'n cyflawni'r mwyaf o ran cydnerthedd ecosystemau a buddion ar draws yr holl nodau llesiant, yn gallu helpu:

- Cynyddu Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn ac o amgylch ardaloedd trefol;
- Sicrhau bod parthau arfordirol yn cael eu rheoli a'u haddasu;
- Cynyddu brigdwf a choetiroedd mewn lleoliadau priodol ar gyrion trefi a dinasoedd, lle y byddant fwyaf gwerthfawr o ran hamdden a gwasanaethau ecosystem;
- Cynnal, gwella ac adfer llifdiroedd a systemau hydrolegol i leihau'r risg o lifogydd ac i wella ansawdd dŵr a'r cyflenwad ohono; ac,
- Adfer ein hucheldir a'i reoli o safbwynt diogelu buddion bioamrywiaeth, carbon, dŵr, perygl llifogydd a hamdden.

## Deddf Cynllunio (Cymru) 2016

3.1.6. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn cyflwyno fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'i phwrpas yw gofalu fod datblygiad tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r system gynllunio yn ganolog i sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n cynnig y cefndir deddfwriaethol a pholisi er mwyn rheoli defnydd tir er lles y cyhoedd fel ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni'r nodau llesiant.

## Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

3.1.7. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn hyrwyddo cerdded a beicio fel y dewis ddull ar gyfer teithiau byrrach, bob dydd, megis y rheiny i'r gweithle neu sefydliad addysg ac

yn ôl, neu er mwyn defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau iechyd, hamdden neu o fathau eraill. Mae’r Ddeddf Teithio Llesol yn mynnu fod awdurdodau lleol yn cynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Integredig, sy'n nodi’r llwybrau cerdded a beicio sydd eu hangen i greu rhwydweithiau cwbl integredig ar gyfer cerdded a beicio i’r gwaith, addysg, gwasanaethau a chyfleusterau.

3.1.8. Mae gan y system gynllunio rôl bwysig wrth hyrwyddo'r broses o gyflawni'r Ddeddf Teithio Llesol, a sefydlu amgylchedd ffafriol i'w gwneud hi'n haws i bobl gerdded a beicio.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

3.1.9. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (RhANG) ac mae'n amlinellu fframwaith o gyflawni hyn fel rhan o broses o wneud penderfyniadau. Amcan RhANG yw cynnal a chryfhau cydnerthedd ecosystemau a'r buddion a gynigiant. Mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn amlinellu'r heriau y mae ein hadnoddau naturiol ac ecosystemau yn eu hwynebu a'r cyfleoedd y gallant eu darparu. Golyga hynny edrych ar sut rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol ar hyn o bryd a sut allwn leihau'r pwysau sydd arnynt. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu a gweithredu Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol er mwyn sicrhau RhANG yng Nghymru.

3.1.10. Diffinnir rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd fel:

> *"…Defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar raddfa sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddaw yn eu sgil. Drwy wneud hyn, mae'n cwrdd ag anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy, ac mae'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a osodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.".*

3.1.11. Mae egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy:

- Yn ein gorfodi i feddwl am y berthynas gymhleth sy'n bodoli rhwng natur a phobl yn y tymor hir;
- Yn ein helpu i feddwl am y buddion a gawn o adnoddau naturiol yn awr ac yn y dyfodol drwy adnabod y ffyrdd y cefnogir ein lles ganddynt;
- Yn ein hannog ni i feddwl am y ffyrdd y gallwn ni wneud ein hecosystemau yn fwy gwydn.

3.1.12. Diffinnir adnoddau naturiol yn Neddf yr Amgylchedd fel:

- Anifeiliaid, Planhigion ac Organebau Eraill;
- Aer, Dŵr a Phridd;
- Mwynau;
- Nodweddion a Phrosesau Daearegol;
- Nodweddion Ffisiograffigol; a
- Nodweddion a Phrosesau Hinsoddol.

3.1.13. Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus sy'n arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau (cyfeirir at hyn fel Dyletswydd Adran 6). Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus gynnwys yr ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau ar y dechrau ac wrth gynllunio busnes, gan gynnwys mewn unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

### Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11

3.1.14. Mae PCC yn cyflwyno amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac mae'n cyfeirio at gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs). Mae PCC 11 yn amlygu'r rôl greiddiol sydd gan Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn llunio lleoedd a gwella llesiant, trwy ddarparu nifer o swyddogaethau a buddion ar gyfer cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Dywed y dylai awdurdodau cynllunio gymryd agwedd strategol a rhagweithiol at Seilwaith Gwyrdd a Glas, a ddylai gael ei integreiddio’n llawn mewn Cynlluniau Datblygu.

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

3.1.15. Cyflwynodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000 ddarpariaethau newydd er mwyn moderneiddio’r gwaith o reoli Hawliau Tramwy a chreu Hawl ar Droed Statudol newydd ar rai mathau o dir agored. Dilynodd hyn astudiaeth o’r buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a chostau ffyrdd gwahanol o gynnig gwell mynediad i gefn gwlad agored. Mae dynodiad Tir Mynediad Agored i dir megis mynyddoedd, gweundir, rhostir, twyndir a thir comin cofrestredig wedi ehangu cyfleoedd mynediad cyhoeddus at Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel tirwedd.

3.1.16. Fel rhan o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) rhoddwyd dyletswydd ar bob awdurdod lleol i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP). Mae’r ROWIP yn gynllun strategol 10 mlynedd er mwyn i awdurdodau lleol adnabod, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i’w rhwydwaith hawliau lleol gan ystyried anghenion penodol pobl llai abl. Mae hyn yn cynorthwyo’r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan ddeddfwriaeth mynediad berthnasol yn ogystal â chyfrannu at gyflawni’r nodau llesiant. Mae hefyd yn mynnu fod rhaid penodi Fforwm Mynediad Lleol i gynghori awdurdodau lleol ac eraill ar wella mynediad cyhoeddus at dir ar gyfer hamdden awyr agored a mwynhau’r ardal.

## 3.2. Methodoleg

3.2.1. Ar hyn o bryd, nid oes safon genedlaethol ar gyfer llunio asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas. Felly, mae'r asesiad hwn yn dilyn dull pragmatig trwy lynu at y nifer o gamau allweddol a geir yn gyffredin o fewn asesiadau Seilwaith Gwyrdd a Glas ar lefel cynllun confensiynol, ac mae'n cyd-fynd â chyngor CNC ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol[44] (Tabl 1).

**Tabl 1:** Camau wedi'u haddasu o'r rheiny a amlinellir yn Nodyn Cyfarwyddyd 042 'Asesiadau Seilwaith Gwyrdd' (Mehefin 2021). Er hwylustod cyfeirio, mae rhifau'r camau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn yn cyfateb i bob cam priodol a nodir yn y nodyn cyfarwyddyd. Mae'r Camau Gweithredu hynny a danlinellwyd yn nodi'r ystyriaeth a roddwyd i Ddatganiad Ardal De-orllewin Cymru.

| Cam Asesu | Camau gweithredu |
|---|---|
| **Datblygu Methodoleg** | • Adolygiad o'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol sy'n ymwneud â chynllunio a'r amgylchedd.<br>• Ystyried nodiadau cyfarwyddyd presennol ac unrhyw ddiffygion asesiadau blaenorol.<br>• Wedi llunio'r fethodoleg amlinellol. |
| **Gwaelodlin Seilwaith Gwyrdd a Glas (Cam 1)** | • Coladu data a sefydlu gwaelodlin ar gyfer y Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol o fewn y Sir.<br>• Amlinellu asedau / rhwydweithiau ecolegol allweddol; cyflwr asedau; y buddion canfyddedig; a'r prif fygythiadau.<br>• <u>A yw'r Datganiadau Ardal wedi nodi unrhyw feysydd sydd eisoes yn chwarae rôl bwysig pan ddaw'n fater o reoli risgiau amgylcheddol neu gynnal cydnerthedd ecolegol?</u> |
| **Nodi Blaenoriaethau (Cam 2)** | • Adolygu polisïau, strategaethau, asesiadau cysylltiedig, ac unrhyw ymgynghoriadau perthnasol â chymunedau a rhanddeiliaid mewn cyd-destun lleol a Chymreig.<br>• Amlinellu'r prif heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn yr ardal ac i ba raddau y gellir gwneud hyn drwy gyfrwng Seilwaith Gwyrdd a Glas.<br>• Adolygu unrhyw safonau maint, hygyrchedd, ac ansawdd mewn perthynas â Seilwaith Gwyrdd a Glas.<br>• <u>Beth yw'r prif faterion sy'n cael eu hamlygu yn y Datganiad(au) Ardal sy'n cwmpasu eich ardal? I ba raddau y gellir mynd i'r afael â'r rhain neu eu cyflawni trwy gyfrwng seilwaith gwyrdd?</u> |
| **Nodi Cyfleoedd (Cam 3)** | • Nodi a gwerthuso opsiynau strategol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau lleol.<br>• Ystyriwch sut y gellid cyflawni'r rhain yn ymarferol (h.y. a ellid mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy wella cyflwr neu faint y Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol, neu a oes angen creu Seilwaith Gwyrdd a Glas newydd?)<br>• Nodi gwargedion/diffygion mewn ansawdd a hygyrchedd yn erbyn y safonau a ddefnyddir.<br>• Llunio mapiau aneddiadau i gefnogi'r gwaith o ddehongli canlyniadau. |

| | |
|---|---|
| | • A yw'r Datganiad Ardal yn nodi unrhyw ardaloedd a fyddai'n elwa o welliant? I ba raddau y gellid cyflawni hyn drwy'r system gynllunio? A yw'n nodi meysydd sy'n debygol o elwa o ddiogelu? Os felly, beth allai fod y ffordd orau o wneud hyn? |
| **Asesiad Safle'r CDLl diwygiedig (Cam 4)** | • Canlyniadau i lywio'r asesiad o ddatblygu pellach yn unol â dyraniadau'r CDLl (h.y. amlinellu pa asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas pwysig y gellir eu canfod ar safleoedd datblygu arfaethedig?; beth yw'r prif fygythiadau a heriau y mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn agored iddynt?; a pha gyfleoedd sydd yno i gynnal a gwella'r Seilwaith Gwyrdd a Glas hwn fel rhan o'r broses ddatblygu?). |
| **Casgliadau ac Adolygiad (Cam 5)** | • Crynodeb o ganfyddiadau'r asesiad.<br>• Amlinellu gofynion monitro ymlaen ac amodau i'w hadolygu, gan ystyried y fframwaith adrodd sydd wedi'i gynnwys yn y CDLl.<br>• Amlinellu'r camau nesaf ar gyfer Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig. |

# 4. Gwaelodlin Seilwaith Gwyrdd a Glas (Cam 1)

4.1.1. Gellir gweld y mapiau Gwaelodlin Seilwaith Gwyrdd a Glas terfynol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yma: https://carmarthenshire.opus4.co.uk/planning/localplan/maps/green-infratstructure-mapping

4.1.2. Y bwriad yw diweddaru'r mapiau hyn yn barhaus pan ddaw gwybodaeth newydd ar gael.

## 4.1. Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas a Ystyriwyd

4.1.1. Mae asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn amrywio o barciau gwledig, llynnoedd a choetiroedd i ymyriadau trefol megis toeau gwyrdd a choed stryd. Gallant fod yn safleoedd penodol ar y lefel leol neu nodweddion amgylcheddol ehangach ar lefel tirwedd o fewn a rhwng ardaloedd gwledig a threfol megis gwlyptiroedd, rhosydd a chadwyni mynyddoedd. Yn ogystal â'r diffiniadau hynny a amlinellwyd yn flaenorol yn Adran 1.4, mae'r Sefydliad Tirwedd yn diffinio asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas ymhellach fel:

> *“rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy’n britho ac yn cael eu cysylltu gan bentrefi, trefi a dinasoedd. Yn unigol, mae’r elfennau hyn yn asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas, ac mae’r rolau mae’r asedau hyn yn eu cyflawni yn swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas. O gael eu cynllunio, eu dylunio a’u rheoli’n briodol, mae gan yr asedau a swyddogaethau y potensial i gynnig ystod eang o fuddion – o ddarparu cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.”*

4.1.2. Cafodd asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas eu hadnabod o fewn ardal yr astudiaeth, a cheir amlinelliad byr o rai ohonynt isod. Ceir teipoleg fanylach yn Atodiad A.



Waliau Gwyrdd
Draenio
Cynaliadwy
Toeau Gwyrdd
Mannau amwynder
Coetir
Rhandiroedd
Gwlyptiroedd
Perthi
Mynwentydd
Private Gardens
Asedau Seilwaith Gwyrdd

## 4.2. Neilltuo Swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas

4.2.1. Mae swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn canolbwyntio ar y nwyddau cyhoeddus a'r gwasanaethau ecosystem y gall asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas penodol eu darparu. Efallai y bydd ganddynt brif swyddogaethau amlwg, ond gall pob ased gyflawni swyddogaethau gwahanol ar yr un pryd - cysyniad a elwir yn aml-swyddogaethedd. Er enghraifft, mae coetir yn cyfrannu at liniaru newid hinsawdd trwy amsugno a storio carbon deuocsid yn ogystal â darparu swyddogaethau esthetaidd, hamdden a bywyd gwyllt. Mae gan diroedd agored cyhoeddus y potensial i fod yn amlswyddogaethol os gwneir y gorau o gyfleoedd ar gyfer darparu llecynnau naturiol yn ogystal â chyfleusterau chwarae/chwaraeon ffurfiol. Gallai mannau cyhoeddus hefyd ddarparu mesurau lliniaru llifogydd, yn enwedig pan fydd systemau draenio cynaliadwy (SuDS) wedi'u gosod ochr yn ochr â hwy. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd, efallai na fydd yn briodol i ased unigol fod yn gwbl amlswyddogaethol, megis er enghraifft, nid yw'n dilyn y dylai safle bywyd gwyllt a ddynodwyd oherwydd ei adar daear-nythu fod yn gwbl hygyrch gan fod hynny'n debygol o fod yn andwyol i'w brif swyddogaethau.

4.2.2. Mae Atodiad B yn nodi pa swyddogaethau y gall pob un o'r asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas a nodwyd eu cyflawni. Dylid nodi y bydd y swyddogaethau a gyflawnir gan bob ased yn wahanol, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau, sy'n golygu fod y tabl hwn yn awgrymog ac nid yn hollgynhwysol.

4.2.3. Sylfaen y gwahanol swyddogaethau y mae asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn eu cyflawni yw cysyniad gwasanaethau ecosystemau. Y diffiniad o wasanaethau ecosystemau yw'r buddion a ddarperir gan Seilwaith Gwyrdd a Glas sy'n cyfrannu at wneud bywyd yn bosibl ac yn werth ei fyw (e.e. awyr glân, dŵr, bwyd a deunyddiau). Maent yn cynnwys:




Gallai'r rhestr o swyddogaethau y mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn eu darparu fod yn hir iawn, ond gellir symleiddio hyn trwy grwpio'r swyddogaethau sy'n debyg ac yn darparu'r un buddion yn fras. Gyda hyn mewn golwg, mae'r tabl isod yn dangos swyddogaethau tebyg wedi'u grwpio yn ôl y modd y maent yn cyflawni yn erbyn chwe thema.

**Tabl #.** Y modd y mae'r asesiad hwn yn dosbarthu Swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas

| Thema Seilwaith Gwyrdd a Glas | Swyddogaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas | Talfyriad |
|---|---|---|
| Iechyd a Llesiant | Hamdden | **Rec** |
| | Teithio Llesol | **AT** |
| | Dal llygryddion awyr | **TAP** |
| Bioamrywiaeth | Peillio | **Pol** |
| | Cynefin i fywyd gwyllt | **HW** |
| | Rhodfa i fywyd gwyllt | **CW** |
| Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd | Cysgodi rhag yr haul | **ShS** |
| | Sefydlogi pridd | **SS** |
| | Storio carbon | **CSt** |
| | Storio a chludo dŵr | **WSC** |
| | Amddiffyn rhag stormydd arfordirol | **CSP** |
| | Tynnu llygryddion | **RP** |
| Cydlyniant cymdeithasol | Gofod cymunedol | **CSpa** |
| | Cynhyrchu bwyd yn lleol | **LFP** |
| Economi | Darparu swyddi | **PJ** |
| | Dysgu gydol oes | **LL** |
| | Sgiliau a gwirfoddoli | **SV** |
| Ymdeimlad o le | Cyfraniad gweledol i'r dirwedd | **VCL** |
| | Cysylltiad â'r amgylchedd lleol | **CLE** |


| | | |
|---|---|---|
| | Amsugno sŵn | **NA** |
| | Treftadaeth a diwylliant | **HC** |

4.2.4. Er y gall asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas unigol wasanaethu un neu fwy o swyddogaethau, gall cysylltedd rhwng gwahanol asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i wneud y mwyaf o'r buddion a gynhyrchir ganddynt. Mae asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas sydd wedi'u cysylltu'n dda yn creu seilwaith sy'n addasol ac sy'n gallu gwrthsefyll newidiadau amgylcheddol. Cysylltiadau ffisegol sy'n gwneud yr argraff fwyaf, yn aml trwy greu 'cerrig sarn' ffisegol sy'n mudo bioamrywiaeth ac sy'n cysylltu lleoedd â llwybrau cerdded neu feicio cynaliadwy. Gyda'i gilydd, mae asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn creu rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd a Glas amlswyddogaethol pwysig, y dylid eu hystyried ar bob graddfa ofodol.

4.2.5. Neilltuwyd swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas i'r holl asedau wedi'u mapio yn dilyn adolygiad o lenyddiaeth i ganfod y swyddogaethau niferus y gall pob math o Seilwaith Gwyrdd a Glas eu darparu. Trafodwyd a chytunwyd hyn fel rhan o weithgor Seilwaith Gwyrdd a Glas, yn cynnwys cynrychiolwyr o gynllunio, cadwraeth, tirwedd, hawliau tramwy cyhoeddus a Theithio Llesol. Derbynnir fod neilltuo swyddogaethau yn gallu bod yn oddrychol ac yn ddibynnol ar leoliad, ond mae'n gosod sylfaen ar gyfer ychwanegu mwy o fanylder yn nes ymlaen ar lefel safle penodol.

## 4.3. Methodoleg Mapio

4.3.1. Roedd yr asesiad gwaelodlin yn cwmpasu ardal awdurdod unedol Cyngor Sir Caerfyrddin, ac nid oedd yn ystyried seilwaith o fewn Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos eraill gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u lleoli yn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Sir Gaerfyrddin (Ffigur 1). Cynhaliwyd asesiad ychwanegol hefyd ar gyfer pob dyraniad tai a amlinellwyd yn yr 2il CDLl Diwygiedig Adneuo (trafodir yn nes ymlaen ym Mhennod 7).



**Ffigur 2.** Map o'r Sir. Er ei bod yn Sir Gaerfyrddin, mae'r ardal a dywyllwyd mewn llwyd yn rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae wedi'i heithrio o gwmpas yr asesiad hwn.

4.3.2. I grynhoi, defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol:

- Defnyddiwyd Haen Topograffi Mastermap yr Arolwg Ordnans fel map sylfaen ar gyfer mapio asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas arno. Roedd yr holl haenau dilynol wedi'u safoni a'u gwirio i'r haen hon. O’r haen hon, tynnwyd haenau adeiladau, ffyrdd a rheilffyrdd allan. Gadawodd hyn haen oedd yn cynnwys tir a dŵr;

- O hyn, tynnwyd y priodoleddau 'dynol' o'r haen topograffi. Gadawodd hyn briodoleddau 'naturiol' a 'lluosog' sy'n trosi'n fap sylfaen o ofod gwyrdd a gerddi preifat yn y drefn honno.;


- At hyn, ychwanegwyd terfynau aneddiadau’r CDLl diwygiedig a lluniwyd clustogfa 500m o gwmpas y terfynau hyn. Yna clipiwyd haenau olynol at y clustogfeydd 500m hyn i’w gwirio ar lefel aneddiadau. Cadwyd rhai haenau i ddangos cysylltedd ar lefel tirwedd.

- Troshaenwyd pob haen ased Seilwaith Gwyrdd a Glas ar y map sylfaen a chawsant eu gwirio. Gwiriwyd hefyd nad oedd unrhyw ddyblygu yn y gwahanol haenau.

4.3.3. Cyfrannodd y setiau data a restrir yn Atodiad A tuag at yr archwiliad gwaelodlin. Cafodd setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd eu caffael drwy DataMapWales a'r Arolwg Ordnans. Cafwyd gafael ar haenau data ychwanegol o adrannau gwahanol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin gan gynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW), Teithio Llesol a Chadwraeth.

### Graddfa mapio

4.3.4. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas strategol ar lefel tirwedd yn creu'r fframwaith a'r cyd-destun ehangach i gefnogi Seilwaith Gwyrdd a Glas ar y lefelau mwy lleol. Nid yw pob ased Seilwaith Gwyrdd a Glas yn cael eu mapio ar y raddfa hon.




**Ffigur 3.** Enghraifft o fapio Seilwaith Gwyrdd a Glas ar raddfa tirwedd

4.3.5. Pan fydd datblygiad newydd yn debygol o effeithio ar asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol (o fewn ffiniau aneddiadau), cafodd yr ardaloedd hyn eu mapio'n fanylach i sicrhau cadwraeth a gwella Seilwaith Gwyrdd a Glas ar gyfer cymunedau ac amgylcheddau lleol.



**Ffigur 4.** Enghraifft o fapio Seilwaith Gwyrdd a Glas ar raddfa anheddiad.

# 5. Nodi blaenoriaethau (Cam 2)

5.1.1. Mae'r bennod hon yn amlinellu rhai o'r heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol y mae angen mynd i'r afael â nhw ac i ba raddau y gellir gwneud hyn drwy gyfrwng Seilwaith Gwyrdd a Glas.

## 5.2. Y Cyd-destun Rhyngwladol

### Nodau Datblygu Cynaliadwy

5.2.1. Mae Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, a fabwysiadwyd gan holl aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig yn 2015, yn darparu glasbrint cyffredin ar gyfer heddwch a ffyniant i bobl a'r blaned, nawr ac i'r dyfodol. Yn ganolog iddo y mae'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy, sy'n alwad frys am i bob gwlad weithredu mewn partneriaeth fyd-eang.

- Nod 1. Rhoi diwedd ar dlodi yn ei holl ffurfiau ym mhob man;
- Nod 2. Rhoi terfyn ar newyn, sicrhau diogelwch bwyd a gwell maeth a hyrwyddo amaethyddiaeth gynaliadwy;
- Nod 3. Sicrhau bywydau iach a hyrwyddo llesiant i bawb ar bob oedran;
- Nod 4. Sicrhau addysg gynhwysol a theg o ansawdd a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb;
- Nod 5. Sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau a grymuso pob menyw a merch;
- Nod 6. Sicrhau bod dŵr a threfniadau glanweithdra ar gael ac yn cael eu rheoli'n gynaliadwy i bawb;
- Nod 7. Sicrhau bod ynni fforddiadwy, dibynadwy, cynaliadwy a modern ar gael i bawb;
- Nod 8. Hyrwyddo twf economaidd cyson, cynhwysol a chynaliadwy, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith boddhaol i bawb;
- Nod 9. Adeiladu seilwaith cydnerth, hyrwyddo diwydiannu cynhwysol a chynaliadwy a meithrin arloesedd;
- Nod 10. Lleihau anghydraddoldeb o fewn ac ymhlith gwledydd;
- Nod 11. Gwneud dinasoedd ac aneddiadau dynol yn gynhwysol, yn ddiogel, yn gydnerth ac yn gynaliadwy;
- Nod 12. Sicrhau patrymau defnydd a chynhyrchu cynaliadwy;
- Nod 13. Gweithredu ar frys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau;
- Nod 14. Gwarchod a defnyddio'r cefnforoedd, y moroedd a'r adnoddau morol yn gynaliadwy ar gyfer datblygu cynaliadwy;
- Nod 15. Amddiffyn, adfer a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ecosystemau ar y tir, rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, mynd i'r afael â diffeithdiro, ac atal a gwrthdroi dirywiad tir ac atal colli bioamrywiaeth;
- Nod 16. Hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy, darparu mynediad at gyfiawnder i bawb ac adeiladu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysol ar bob lefel;

- Nod 17. Cryfhau'r modd o weithredu ac adfywio'r bartneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy.

5.2.2. Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) hyn yn cydberthyn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5.2.3. Wrth dynnu sylw at y rôl y gall Seilwaith Gwyrdd a Glas chwarae, mae adroddiad yn 2019 ar *rôl hanfodol seilwaith ar gyfer y Nodau Datblygu Cynaliadwy* yn dadlau na ddylai ymdrechion i gynyddu buddsoddiadau mewn Seilwaith Gwyrdd a Glas fod yn drech na gwaith i sicrhau bod y seilwaith traddodiadol yn gynaliadwy[45].

5.2.4. Mae adolygiad a gynhaliwyd yn 2021 yn ystyried y ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall Seilwaith Gwyrdd a Glas (yn enwedig mewn lleoliad trefol) gyfrannu at liniaru tlodi. Gall cysylltiadau uniongyrchol gynnwys darparu nwyddau, cyflogaeth mewn datblygu Seilwaith Gwyrdd a Glas, cynnal ac adfer, a thir ar gyfer amaethyddiaeth drefol, cynhyrchu incwm ac anheddau. Yn ogystal, gall cysylltiadau anuniongyrchol gynnwys arbedion arian parod, gwell iechyd corfforol a meddyliol, gwell rhwydweithiau cymdeithasol, gwell canlyniadau addysgol, a rheoli trychinebau naturiol posibl.[46]

### Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhyngwladol ar Weithredu er Budd yr Hinsawdd yn Seiliedig ar Natur

5.2.5. Gan gydnabod pwysigrwydd dull seiliedig ar natur fel elfen allweddol o weithredu ar newid hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi helpu i ddechrau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Rhyngwladol ar Weithredu er Budd yr Hinsawdd yn Seiliedig ar Natur. Fel llofnodwr gwreiddiol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- hyrwyddo buddsoddiadau i gryfhau cydnerthedd ecosystemau fel rhan o'r ymateb i'r angen i liniaru ac addasu;
- chwilio am ddatrysiadau seilwaith naturiol neu "wyrdd" er mwyn lleihau risg newid hinsawdd a darparu gwasanaethau ecosystem ehangach yn ogystal â diogelu amrywiaeth biolegol a iechyd ecosystemau;
- defnyddio dulliau ac asesiadau sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o werth ehangach bioamrywiaeth ac ecosystemau iach wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd a chynnig llu o fuddion ehangach;
- datblygu dulliau i fesur buddion ffyrdd integredig o fynd i'r afael â newid hinsawdd (gan gynnwys gwasanaethau ecosystemau, diogelu amrywiaeth biolegol, dal a storio carbon a'r cyd-fuddion ehangach sy'n cefnogi gwell cydnerthedd);

- yr angen am fwy o gydweithredu a mesur technegol a gwyddonol o ran gweithredu; a,
- meithrin cysylltiadau agosach rhwng rheoli ecosystemau, addasu i newid hinsawdd a datblygu cynaliadwy.

5.2.6. Trwy ddarparu tystiolaeth feintiol o ddylanwad seilwaith ar ddatblygu cynaliadwy a chymryd camau lliniaru ac addasu ar gyfer yr hinsawdd, mae Seilwaith Gweithredu er Budd yr Hinsawdd[47] yn amlygu'r rôl allweddol y mae'r seilwaith yn ei chwarae wrth feithrin datblygiadau sy'n gydnaws â'r hinsawdd. Er mwyn i Seilwaith Gwyrdd a Glas gyfrannu tuag at gyflawni'r nodau mewnol (gan gynnwys y Nodau Datblygu Cynaliadwy), mae'n pwysleisio'r angen am fabwysiadu dull cyfannol, systematig, ac integredig o ddatblygu seilwaith.

## 5.3. Y Cyd-destun Cenedlaethol

### Ail Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020)

5.3.1. Mae SoNaRR2020 yn nodi ystod o gyfleoedd i weithredu symud tuag at ddyfodol cynaliadwy ac adferiad gwyrdd ledled Cymru. Mae'n nodi…

> *"Mae Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd byd-eang a gwella'r amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd; Nid yw Cymru eto'n bodloni'r pedwar nod hirdymor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac mae'n hanfodol bod penderfyniadau polisi'r dyfodol wedi'u gwreiddio yn y dystiolaeth hon"[48].*


5.3.2. Ers cyhoeddi'r adroddiad blaenorol, pedwar nod hirdymor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw:

- Nod 1. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella;
- Nod 2. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwyliedig ac annisgwyl;
- Nod 3. Mae gan Gymru lefydd iach i bobl, wedi'u hamddiffyn rhag risgiau amgylcheddol;
- Nod 4. Cyfrannu at economi adfywiol, gan gyflawni lefelau cynaliadwy o gynhyrchu a defnyddio.

5.3.3. Mewn egwyddor, cydnabyddir y gall Seilwaith Gwyrdd a Glas helpu i ddiogelu ac ailgyflenwi'r adnoddau natur hynny a amlinellwyd yn flaenorol ym mharagraff 3.1.11, fel y dangosir gan wlyptiroedd a all wella ansawdd dŵr a bioamrywiaeth [49].

### Adroddiad Sefyllfa Byd Natur

5.3.4. Yn ôl adroddiad[50] Sefyllfa Byd Natur 2019, mae'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos bod 17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Er nad oes ffigur cyfartalog cyffredinol ar gyfer newidiadau mewn digonedd o rywogaethau ar gyfer bywyd gwyllt Cymru, ceir data ar rai grwpiau:




**Ffigur 5.** Ffynhonnell: Adroddiad Sefyllfa Byd Natur, 2019.

5.3.5. Ochr yn ochr â darparu cynefin ar ôl iddo gael ei weithredu, dangosir bod mapio Seilwaith Gwyrdd a Glas yn unig yn chwarae rhan allweddol mewn adfer ecosystemau a chadwraeth bioamrywiaeth trwy gynorthwyo'r broses o ddatblygu polisi strategol a gwneud penderfyniadau [51].

## 5.4. Cyd-destun Rhanbarthol

### Datganiad Ardal De-orllewin Cymru

5.4.1. O dan Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, lluniwyd Datganiadau Ardal gan CNC sy'n cwmpasu'r rhanbarth morol a chwe rhanbarth tirol. Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (SWWAS) yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, ac Abertawe, ac yn cynrychioli 22% o boblogaeth y wlad a 23% o'r tir.

5.4.2. Mae gan CNC ddyletswydd i lunio Datganiadau Ardal gyda'r nod o lywio camau gweithredu 'seiliedig ar leoedd'. Mae Datganiadau Ardal yn crynhoi at ei gilydd ddata, gwybodaeth a ffyrdd o ymgysylltu ag eraill i helpu i ddeall cyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol mewn ardaloedd penodol, y pwysau sydd arnynt a'u buddion. Mae

Datganiadau Ardal hefyd yn defnyddio tystiolaeth i ystyried perthnasedd blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Cenedlaethol. Maent hefyd yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol diwygiedig, yn ogystal â bwydo i mewn i Gynlluniau Llesiant lleol.

5.4.3. Cynhyrchwyd y SWWAS yn 2020 yng nghyd-destun datganiad argyfwng hinsawdd a natur Llywodraeth Cymru. O'r herwydd gwnaed newidiadau i'r CDLl diwygiedig, sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Datganiad a natur gysylltiedig y ddau argyfwng hyn sydd ynddynt eu hunain yn symptomau o reoli adnoddau a datblygiad naturiol anghynaladwy, ar draul cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen dull systemau cyfan er mwyn addasu i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac o'r herwydd mae'r ddau fater yn rhan o holl themâu SWWAS sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd; Sicrhau dulliau cynaliadwy o reoli tir; Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'i gwella; a thema drawsbynciol: Addasu i newid yn yr hinsawdd a'i leihau.

5.4.4. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas Trefol yn cael ei nodi fel elfen bwysig wrth fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd a brofir yn y rhanbarth[52].

## 5.5. Y Cyd-destun Lleol

5.5.1. Sir Gaerfyrddin yw'r drydedd sir fwyaf yng Nghymru, ac mae'n gorchuddio tua 2,365 cilomedr sgwâr, sef 11.5% o gyfanswm mas tir y wlad. Fel '*sir o gyferbyniadau*', mae de-ddwyrain Sir Gaerfyrddin yn cynnwys llawer o ardaloedd trefol a diwydiannol tra bod y gweddill yn wledig tu hwnt ac yn cael ei gynnal gan amaethyddiaeth. O fewn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mae diwydiannau glo, dur a diwydiannau trwm eraill y gorffennol wedi gadael eu hetifeddiaeth amgylcheddol. Serch hynny, mae'r Sir yn arallgyfeirio i fod yn economi fodern sy'n cynnwys diwydiannau peirianneg ysgafn, gwasanaeth a thechnoleg newydd ynghyd â mentrau busnes eraill.

5.5.2. Mae gan Sir Gaerfyrddin amgylchedd naturiol a diwylliannol cyfoethog, a nodweddir gan arfordiroedd trawiadol, aberoedd tawel, dyffrynnoedd coediog serth ac uwchdiroedd garw. Ar hyd a lled y Sir ceir clytwaith o goetir a chaeau, wedi'u hamgylchynu gan berthi. Mae'r amgylcheddau arfordirol ac aberol yn gyforiog o rywogaethau, rhai ohonynt o gryn bwys cadwraethol.

5.5.3. Mae 10 safle o bwys rhyngwladol ar gyfer cadwraeth natur yn gorwedd yn gyfan neu'n rhannol yn Sir Gaerfyrddin, ynghyd â phum Gwarchodfa Natur Genedlaethol, 89 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a chwe Gwarchodfa Natur Leol.

5.5.4. Mae harddwch naturiol y sir hefyd yn meithrin diwydiant ymwelwyr a hamdden bywiog. Felly, mae'n bwysig fod nodweddion o'r fath yn cael eu diogelu, gan eu bod yn greiddiol i lesiant ffisegol ac economaidd trigolion, ymwelwyr a gweithwyr Sir Gaerfyrddin.

### Datganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022–2027 (Gorffennaf 2022)

5.5.5. Yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi a newid hinsawdd, mae datganiad gweledigaeth y Cabinet yn cynnwys cryfhau'r economi a chynyddu llewyrch, a buddsoddi mewn tai, addysg, diwylliant, seilwaith a'r amgylchedd i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Mae natur gwmpasog Seilwaith Gwyrdd a Glas yn golygu y gall ymwneud â'r agweddau hyn, ond mae un flaenoriaeth berthnasol benodol yn cynnwys:

5.5.6. "*Cydnabod anghenion ein cymunedau amrywiol, gan sicrhau bod y tai iawn yn cael eu hadeiladu yn y mannau iawn...*"

5.5.7. Cyflwynwyd y datganiad gweledigaeth yn y Cabinet gan yr Arweinydd a rhoddodd hyn gyfeiriad i'r Strategaeth Gorfforaethol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

### Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

5.5.8. Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin yn nodi dyheadau a blaenoriaethau strategol, ac yn amlinellu'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn gwireddu ei weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf. Wrth wraidd y dull hwn mae integreiddio a chydweithio ar draws y Cyngor a chyda'n rhanddeiliaid, a'n ffocws wrth symud ymlaen fydd *Datblygu Sir Gaerfyrddin, Gyda'n Gilydd: Un Cyngor; Un Weledigaeth; Un Llais.*

5.5.9. Mae hefyd yn nodi amcanion llesiant y Cyngor. Mae enghreifftiau'n cynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

- Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda);
- Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda); a
- Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus).

5.5.10. Fel y sefydlwyd ym Mhennod 2, gall Seilwaith Gwyrdd a Glas chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

5.5.11. Mae gan bob corff cyhoeddus gyfrifoldeb am gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion llesiant. Mae'r Ddeddf Llesiant gysylltiedig hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y cyfrifoldeb o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal trwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant a thrwy bennu amcanion.

5.5.12. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gosod yr amcanion llesiant canlynol er mwyn cyflawni nodau llesiant Cymru:

- 1: Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg;
- 2: Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- 3: Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur;
- 4: Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau; a
- 5: Helpu i greu cymunedau dwyieithog, diogel ac amrywiol.

5.5.13. Mewn ymateb i amcan 3, mae'r Cynllun[53] Llesiant yn cyfeirio'n benodol at ymgorffori dull partneriaeth o ddatblygu Seilwaith Gwyrdd a Glas.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru


5.5.14. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd perthynol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol a gynhyrchir gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru.

5.5.15. Mae MALIC yn rhestru ardaloedd yn eu trefn o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). Nid yw'n darparu mesur o lefel amddifadedd mewn ardal, ond yn hytrach a yw ardal yn amddifad o gymharu â phob ardal arall yng Nghymru. Mae Canllawiau MALIC 2019 yn rhoi mwy o wybodaeth am ddefnyddio a dehongli'r canlyniadau.

5.5.16. Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys wyth parth amddifadedd ar wahân. Mae'r rhai a welir isod yn ystyried yr Amgylchedd Ffisegol sy'n mesur ffactorau a allai effeithio

ar lesiant neu ansawdd bywyd y rheiny sy'n byw mewn ardal benodol gan gynnwys agosrwydd at fannau gwyrdd naturiol hygyrch.

5.5.17. Yn 2019 mae Sir Gaerfyrddin (gan gynnwys ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) yn cynnwys 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (5.9% o gyfanswm o 1909 yng Nghymru). O'r 20% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru o fewn parth yr Amgylchedd Ffisegol, mae 24 o fewn Sir Gaerfyrddin sy'n cyfrif am 21.4% o'r rhai sydd yn yr Awdurdod Lleol a 1.3% o'r rhai yng Nghymru (Ffigur #).




**Ffigur 6.** Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin fel yr aseswyd yn erbyn dangosyddion o fewn yr amgylchedd ffisegol. Caiff Hengoed 2 (01001925), Llanismel 2 (W01000723), Llandybïe 1 (W01000680), a Llandybïe 2 (W01000681) eu rhestru yn eu trefn fel y rhai mwyaf difreintiedig o fewn yr Awdurdod Lleol.

### Materion y CDLl

5.5.18. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl diwygiedig, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu er mwyn dod i wybod am faterion o bwys lleol y gellid mynd i'r afael â nhw trwy'r system gynllunio. Lluniwyd rhestr o 38 o faterion yn cwmpasu nifer o bynciau gwahanol.

5.5.19. Byddai unrhyw bolisïau a strategaeth ar gyfer y dyfodol sydd â'r nod o hyrwyddo Seilwaith Gwyrdd a Glas yn rhoi cyfle i greu ymateb cydgysylltiedig i nifer o'r materion

a nodwyd yma. Mae Atodiad C wedi blaenoriaethu'r rhain yn themâu allweddol Seilwaith Gwyrdd a Glas (y cyfeirir atynt hefyd yn *PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas*).

### Gwyrddu 8 Tref yn Sir Gaerfyrddin

5.5.20. Cynhaliwyd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid hwn yn 2022, ac mae'n nodi'r materion a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn ac o gwmpas wyth tref yn y sir. Roedd yn cael ei arwain gan y Weledigaeth gyffredinol ganlynol, a ddrafftiwyd yn unol ag adborth gan randdeiliaid allweddol (gweler Atodiad D).

*"Bydd rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin yn cael ei gynllunio'n strategol. Bydd hyn yn sicrhau cyfres gydlynol a chysylltiedig o asedau naturiol sy'n gweithio gyda phrosesau naturiol. Bydd y rhwydwaith wrth wraidd ymdrechion i frwydro yn erbyn yr argyfyngau bioamrywiaeth a'r hinsawdd.*

*Bydd y cyfrifoldeb am rwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddosbarthu ar draws holl adrannau'r Cyngor, mewn cydweithrediad agos ag ystod o bartneriaid allanol gan gynnwys cymunedau lleol. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwaith o ddylunio a rheoli pob ased Seilwaith Gwyrdd a Glas fynd y tu hwnt i'r addurniadol, a darparu swyddogaethau ar gyfer Pobl, Natur a Lle – wedi'u gwreiddio yng nghryfderau lleol nodedig y Sir."*

5.5.21. Roedd pryderon a godwyd yn canolbwyntio ar yr angen am adfywio gwyrdd, rheoli bioamrywiaeth yn effeithiol, a hygyrchedd mannau gwyrdd. Bydd angen i fersiynau'r dyfodol o'r corff hwn o waith gyfleu agenda polisi sy'n newid yn gyflym. Mae hyn yn debygol o gynnwys deddfwriaeth sy'n datblygu ynghylch gorchudd coed, gofynion sero net a pholisi adfer natur, yn ogystal â ffynonellau cyllid newydd.

### Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

5.5.22. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur[54] sy'n nodi sut y bydd Cymru'n cyflawni ymrwymiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth[55] Biolegol a Strategaeth[56] Bioamrywiaeth yr UE i atal y dirywiad yn ein bioamrywiaeth ac yna gwrthdroi'r dirywiad hwnnw.

5.5.23. Yn Sir Gaerfyrddin datblygwyd Cynllun Adfer Natur Lleol[57] yn seiliedig ar amcanion y cynllun cenedlaethol, ac mae'n mynd i'r afael â'r materion sy'n gyrru'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn lleol.

5.5.24. Mae fersiwn ddrafft o Adroddiad Cyflwr Natur Sir Gaerfyrddin 2023, a baratowyd gan Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, yn dangos bod llawer o'r bygythiadau lleol i fywyd gwyllt Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol.

**5.5.25.** Mae'n argymell bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu cynllunio ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Glas a fydd yn helpu i greu Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth, a bod o fudd i bobl, gan roi datblygu cynaliadwy sy'n buddsoddi mewn natur wrth wraidd y penderfyniadau lleol a wneir.

# 6. Adnabod Cyfleoedd (Cam 3)

6.1.1. Er nad yw'r adran hon yn cyfeirio'n benodol at yr union sefyllfa o ran gwelliannau SGG posib, yr hyn a wna yw amlinellu rhai offerynnau a rhaglenni gwaith sydd ar gael yn barod allai fod yn ddefnyddiol wrth adnabod cyfleoedd penodol yn y Sir (yn enwedig felly wrth weithredu'r CDLld).

6.1.2. Fel rhan o *Gwyrddu 8 Tref yn Sir Gaerfyrddin*, cefnogodd y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid nifer o gyfleoedd gwella rhwydwaith SGG (gweler Atodiad D). Er eu bod yn ceisio rhoi sylw i nifer fawr o faterion cynaliadwyedd, roeddent yn canolbwyntio ar…

- Greu gerddi glaw;
- Adfer coridorau afonydd a gwlypdiroedd;
- Addysg amgylcheddol;
- Creu lleoliad gwyrdd ar gyfer asedau treftadaeth;
- Glasu'r lleoedd y mae pobl yn byw a gweithio ynddyn nhw ac yn ymweld â nhw;
- Cryfhau gorchudd coed;
- Darparu llwybrau gwyrdd i gerdded a seiclo;
- Ailfeddwl swyddogaethau parciau a llecynnau gwair;
- Dod o hyd i leoedd ar gyfer tyfu cymunedol; a
- Chreu llecynnau chwareus.

## 6.2. Llesiant a Hamdden

6.2.1. Mae'n ddealledig fod cysylltiad cynhenid rhwng SGG â'r nifer fawr o deipolegau sy'n ffurfio mannau agored, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd yn wreiddiol yn TAN16[58]. Dangosodd *Asesiad o Fannau Tir Agored Cyhoeddus* a gynhaliwyd yn ddiweddar fod pob ward etholiadol yn Sir Gaerfyrddin yn brin o leoedd chwarae, ac mai dim ond 39% o wardiau etholiadol sy'n bodloni'r safonau mabwysiedig presennol ar gyfer chwaraeon awyr agored. Yn ogystal ag asesu cydymffurfiaeth â safonau cymeradwy

eraill ar gyfer llecynnau amwynder a naturiol, mae canfyddiadau o'r fath yn amlygu'n ofodol ardaloedd sy'n brin ar hyn o bryd, a gellir eu defnyddio i gyfrannu at gyfleoedd SGG i'r dyfodol, yn enwedig felly rai sy'n cyfrannu at y parth cyhoeddus. Dylai unrhyw gynlluniau i gyflwyno SGG yn y dyfodol ystyried hyrwyddo mynediad, ymarfer, a chwarae, a lleddfu'r nifer fawr o enghreifftiau o brinderau llecynnau tir agored sydd i'w gweld yn y Sir ar hyn o bryd.

## 6.3. Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau

6.3.1. Mae *Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin 2020-2030*[59] yn rhestru'r cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth Adran 7 hynny sydd o'r pwys mwyaf er mwyn cynnal a chryfhau bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Fe'i cynhyrchwyd gyda chymorth Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru a chofnodwyr sirol lleol. Ceir rhestr gynhwysfawr yn Atodiad 2 y Cynllun Adfer Natur (tudalen 51-55)[60], er nad yw absenoldeb cofnodion o reidrwydd yn golygu absenoldeb y rhywogaethau yn Sir Gaerfyrddin[61]. Y blaenoriaethau A7 cenedlaethol sydd hefyd yn cael eu hystyried yn rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth lleol yw:


- Ymylon heolydd
- Tiroedd eglwys a mynwentydd
- Chwilen y traethlin (*Eurynebria complanate*)
- Tylluan wen (*Tyto alba*)
- Cwtiad torchog bach (*Charadrius dubius*)

6.3.2. Mae'n hysbys iawn ei bod yn anodd meintioli mecanweithiau gwydnwch ecosystemau, sy'n aml yn atal cynnig disgrifiad ystyrlon ar lefel strategol. I oresgyn hyn, mae PCC wedi adnabod pum[62] nodwedd ryng-gysylltiedig o wytnwch ecosystemau i sicrhau y caiff y mathau mwyaf effeithiol o ddata eu hystyried wrth ddatblygu rhaglenni ar gyfer adeiladu gwydnwch ecosystemau[63]. Yr enw cyffredinol arnynt yw 'Fframwaith Gwydnwch DECCA', ac maent fel a ganlyn:

- Amrywiaeth
- Ehangder
- Cyflwr

- Cysylltedd
- Addasrwydd

6.3.3. O ran y 5 nodwedd yma, gellir defnyddio [set ddata CuRVE CNC (Gwerth Cymharol Cyfredol Gwydnwch Ecosystemau)] i helpu i gyfrannu at y broses o adnabod cyfleoedd posib i ofalu am, cryfhau neu ail-greu rhwydweithiau ecolegol gwydn (Ffigur 7).




**Ffigur 7.** Map CuRVE yn dangos patrymau cysylltedd cymharol yn Sir Gaerfyrddin, ar raddfa o 1km$^2$. Mae coch tywyll yn dangos ardaloedd ag iddynt gysylltedd ecolegol uchel ac mae gwyn yn dangos isel. Er yn ymarferol y byddai angen ystyried y 4 nodwedd arall, mae'r map hwn yn dangos ardaloedd mawr i'r De-orllewin (ger Trelech, Llanelli, a Chydweli) allai elwa o welliannau SGG fyddai'n rhoi sylw i gysylltedd cynefinoedd [64].

## 6.4. Coetiroedd a Llygredd Awyr

6.4.1. Mae strategaeth coed a choetiroedd yn cael ei datblygu i helpu i fynd i'r afael â llygredd awyr yn y Sir, ac mae'n gweithredu ar y cyd â chynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r diffyg presennol mewn gorchudd coed cyffredinol. Cafodd ei gynhyrchu'n rhannol i ymateb i ddynodi tri pharth rheoli ansawdd awyr ar gyfer ocsid nitrus yn Sir Gaerfyrddin, un yr un yn Llanelli, Llandeilo, a Chaerfyrddin. Mae Coed Cadw yn disgrifio sut all llystyfiant wedi'i blannu yn y lleoedd iawn helpu i wella ansawdd awyr trefol ar raddfa leol trwy ddal llygryddion a ffurfio rhwystr amddiffynnol rhyngddynt â phobl[65]. Hefyd, mae Coed Cadw wedi cynhyrchu Safonau Mynediad at Goetiroedd sy'n cael eu defnyddio'n helaeth mewn polisi coedwigol. Mae'n argymell y dylai pawb gael mynediad at goetir sydd o leiaf:

- 2 ha o fewn 500m i bob cartref
- 20 ha o fewn 4km i bob cartref.

6.4.2. Dangosodd asesiad anghynhwysfawr o'r safonau uchod yn ôl set data Mynediad Agored CNC ar gyfer Coedwigoedd Pwrpasol nad yw'r rhan fwyaf o gartrefi preswyl yn cadw atynt (Ffigur 8). Gall SGG gynnig cyfle i roi sylw i ddiffygion o'r fath.



**Ffigur 8.** Yn ôl Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol 2020, mae tua 18.1% o arwynebedd tir yn Sir Gaerfyrddin (ac eithrio PCBB) o dan ryw fath o reolaeth coetiroedd (a ddangosir gan y gwyrdd a'r porffor wedi'u cyfuno). Mae'r ffigwr hwn yn gostwng i ~15.7% pan na chynhwysir coed wedi'u torri. Trwy greu clustogfeydd 500m a 2km o gwmpas y coetiroedd hygyrch (porffor) a'u cymharu gyda'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol, dim ond ~1.4% o anheddau preswyl oedd o fewn 500m i goetir cyhoeddus hygyrch, tra bod ~6.5% o fewn 2km[66].

## 6.5. Diogelu Ansawdd Dŵr

6.5.1. Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd CNC dystiolaeth oedd yn dangos fod dros 60% o grynofeydd dŵr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SCA) afonol yng Nghymru yn methu cyrraedd y safonau ffosfforws diwygiedig. O'r herwydd, aeth CNC ati'n ddiweddarach i gyhoeddi cyngor cynllunio er mwyn osgoi dirywiad pellach mewn capasiti amgylcheddol pan mae gan ddatblygiadau newydd y potensial i greu rhagor o lygredd ffosfforws. Mae angen cymryd y camau hyn i ddangos cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 wedi'u diwygio.

6.5.2. Yn Sir Gaerfyrddin, mae canllawiau ffosffad yn effeithio ar ddalgylchoedd Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Cleddau, Afon Gwy ac Afon Wysg. Wrth ymateb, comisiynodd CSC waith i ddatblygu deunyddiau ategol i helpu i alluogi'r CDLl i symud ymlaen yn

effeithiol a chaniatáu datblygu cynaliadwy yn yr ardaloedd a effeithiwyd. Hefyd, mae hwn yn gyfle i integreiddio DSN megis gwlypdiroedd a chlustogfeydd afonol, ac fe amlinellir sefyllfa o'r fath yn y Cynllun Gweithredu Interim ar gyfer Niwtraliaeth Faethynnol[67]. Mae atebion o'r fath hefyd yn gallu cynnig manteision eraill ar gyfer bioamrywiaeth a lliniaru rhag llifogydd.

## 6.6. Gweithredu Polisi

6.6.1. Er y rhoddir rhyw gymaint o ystyriaeth i SGG trwy gydol y CDLld, yn enwedig felly trwy integreiddio creu lleoedd, cynhwyswyd y ddau bolisi mwyaf perthnasol ynghylch SGG isod. Yn y pendraw, mae'r rhain yn helpu i sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn dderbyniol o ran cynllunio, ac yn cynnig mecanwaith ar gyfer cyflawni'r cyfleoedd a drafodwyd.

**<u>PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas</u>**

Bydd cynigion datblygu yn dangos atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol sy'n:

1. Cadw, amddiffyn, ac integreiddio asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol i'r graddau gorau posibl a blaenoriaethu'r rheiny sydd o'r gwerth, yr ansawdd, a'r cyflwr gorau o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu;
2. Gwireddu gwelliannau cyffredinol i werth, ansawdd, a chyflwr; ac ehangder, amrywiaeth, a chysylltedd y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu;
3. Integreiddio'n effeithiol a gwneud y mwyaf o gysylltedd ag asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol wrth ymyl ffiniau'r safle datblygu a chyda'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas ehangach;
4. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fod yn amlswyddogaethol trwy integreiddio swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas i gyflawni amcanion cyfunol sydd o fudd i Fioamrywiaeth, Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd, Iechyd a Llesiant, Ymdeimlad o Le, a'r Economi; a,
5. Chynnwys cynigion rheoli a chynnal a chadw hirdymor i sicrhau bod atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol yn cael eu cyflawni ar gyfer oes y datblygiad arfaethedig.

Bydd ceisiadau cynllunio yn gofyn am gyflwyno arolygon ac asesiadau sy'n briodol i safle a natur y datblygiad, er mwyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas.

Bydd yn ofynnol i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd a Glas i ddangos sut mae atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi cael eu hystyried a'u lletya fel rhan o'r datblygiad arfaethedig.

6.6.2. Mae PSD3 yn ceisio sicrhau bod asedau SGG yn cael eu gwerthfawrogi, eu diogelu, eu cryfhau, a'u rheoli trwy'r rhwydwaith SGG. Wedi iddynt gael eu mabwysiadu, bydd angen i geisiadau cynllunio gyflwyno arolygon ac asesiadau sy'n berthnasol i safle a

natur y datblygiad, er mwyn gallu gwerthuso lleoliad, ansawdd, a chyflwr yr holl asedau SGG presennol ar, ac yn gyfagos â ffin y safle arfaethedig.

6.6.3. Trwy gadw at ofynion cysylltiedig o dan PCC11, mae'r amod fod rhaid cyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd yn sicrhau hefyd bod cyfleoedd o fewn/yn gysylltiedig â safle'r datblygiad arfaethedig yn cael eu gwireddu a bod unrhyw effeithiau posib yn cael eu lliniaru.

**PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd**

Bydd cynigion ar gyfer datblygu yn:

1. Cadw, amddiffyn, ac integreiddio coed, coetiroedd a gwrychoedd presennol i'r graddau gorau posibl a blaenoriaethu'r rheiny sydd o'r gwerth, yr ansawdd, a'r cyflwr gorau o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu trwy broses ailadroddol o ddylunio cynllun safle sy'n osgoi effeithiau posibl;

2. Lleihau effeithiau posibl i goed, coetiroedd a gwrychoedd a gaiff eu cadw trwy ddylunio safleoedd yn benodol, datganiadau dull a mesurau amddiffyn.

3. Gwneud gwaith plannu priodol i wneud iawn am golled anochel coed, coetiroedd, a gwrychoedd i ddarparu gwelliannau cyffredinol i ehangder a gorchudd. Dylid ystyried cyfleoedd i drawsleoli gwrychoedd presennol lle bo'n ymarferol;

4. Darparu digon o le a chyfaint gwreiddio o fewn cynllun y safle ac mewn perthynas â defnyddiau tir cyfagos i alluogi coed, coetiroedd, a gwrychoedd presennol a rhai sydd newydd eu plannu i dyfu'n effeithiol i aeddfedrwydd ac i osgoi heriau posibl i'w cadw drwy gydol oes y datblygiad;

5. Nodi a darparu gwaith rheoli i wella gwerth, ansawdd a chyflwr coed, coetiroedd, a gwrychoedd presennol o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu; a

6. Phlannu coed, coetiroedd, a gwrychoedd ychwanegol sy'n briodol i'r safle a'r math o ddatblygiad a fydd yn sicrhau manteision tirwedd hirdymor a buddion net i fioamrywiaeth.

6.6.4. Mae PSD4 yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall coed, coetiroedd a pherthi eu gwneud i'r amgylchedd ac i'n cymunedau. Mae eu gwerth mewn ffurfiau trefol yn cael cydnabyddiaeth arbennig. Fel y trafodwyd ynghynt, gall yr asedau hyn helpu i fynd i'r afael â llygryddion awyr, llifogydd, a llygredd sŵn, ac maent yn cynnig nifer o fuddion eraill gan gynnwys darparu cysgod ac amwynderau gweledol. Maent hefyd yn darparu ardaloedd helaeth ar gyfer cynefinoedd i fywyd gwyllt, a choed aeddfed yn arbennig.

# 7. Asesu Safleoedd yn y CDLld (Cam 4)

7.1.1. Gellir defnyddio'r sefyllfa arfaethedig a hyd a lled cynigion datblygu yn y CDLld i benderfynu'r effeithiau posib ar y rhwydwaith SGG. Er yn y pendraw fod y broses hon yn cyfrannu at ddewis ac addasrwydd safleoedd (fel yr amlinellir ym Methodoleg Asesu Safleoedd), mae hefyd yn galluogi proses o adnabod cyfleoedd cyfoethogi y gellir, yn eu tro, eu defnyddio i helpu i lunio unrhyw geisiadau cynllunio a dderbynnir ar y safle hwnnw ymhen hir a hwyr.

7.1.2. Yng ngoleuni'r uchod, cynhaliwyd asesiad o gynigion y CDLld yn ôl gwaelodlin SGG Sir Gaerfyrddin (Tabl 3). Mae'n ystyried beth yw'r berthynas rhwng ardal a ffin safle penodol â'r rhwydwaith SGG a gwydnwch ecosystemau yn yr ardal gyfagos. Mae hyn yn cynnwys Rhwydweithiau Blaenoriaeth Ecolegol (RhBEiau) sydd, gan eu bod yn ardaloedd sy'n cysylltu Safleoedd Gwarchodedig (e.e., Cynefinoedd Adran 7), yn darparu fframwaith ar gyfer penderfynu ymhle ddylid gweithredu i adeiladu rhwydweithiau ecolegol gwydn yn seiliedig ar leoedd pwysig ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. Mae hefyd yn cynnwys cymhariaeth gyda fersiwn 2020 y Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol (RhGG) i ddarparu gwybodaeth ar a allai'r safle effeithio ar goedwigoedd a choetiroedd sy'n bod yn barod. Darparwyd rhagor o wybodaeth yn y nodiadau, megis cysylltiadau â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) i gyfrannu at berthynas safle gyda Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig.

7.1.3. Gan mai asesiad desg yw hwn, mae angen mwy o waith ar y safle ar lefel y prosiect er mwyn rhoi darlun cywirach o ba asedau SGG sydd i'w gweld yno, ynghyd â'r prif fygythiadau a chyfleoedd ar eu cyfer, ac a oes cyfleoedd i gynnal a gwella arnynt fel rhan o'r broses ddatblygu.

7.1.4. Dylid nodi hefyd fod rhaid i drwch mawr y dyraniadau (gan gynnwys pob cynnig ar gyfer datblygiadau mawr) gynnwys SDCau a rhyw fath o ddarpariaeth ar gyfer tir agored sy'n cynnwys meini prawf unigol ar gyfer hyrwyddo amwynderau a chynnal bioamrywiaeth (sy'n berthnasol i fabwysiadu'r polisïau cysylltiol a fwriedir). Er eu bod yn cael eu targedu ar wahanol faterion cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol, mae'r angen am ofynion o'r fath yn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo ac y cefnogir y nod o gyflawni nodau llesiant lleol a chenedlaethol.

**Tabl 3. Asesiad o gynigion y CDLld o gymharu â gwaelodlin SGG Sir Gaerfyrddin. Oni ddywedir yn wahanol, mae'r ffigyrau yn cynrychioli canran o arwynebedd y safle. Cafwyd y Fframwaith Gwydnwch o ddata CuRVe CNC, yn amrywio o sero i 100, ac mae rhifau uwch yn dangos fod y ffactor yn cyfrannu mwy at wytnwch. Ceir gwybodaeth gyd-destunol arall gan gynnwys asesiad o gymharu ag NFI2020 yn adran Nodiadau. $c^1$= Cysylltedd, $c^2$=Cyflwr.**

| Cyf Safle | Enw | Ardal (Ha) | PEN | Cynefin S7 | Coed Trefol | Perthi | Fframwaith Gwydnwch | | | | | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | D | E | $C^1$ | $C^2$ | A | |
| **Dyraniadau Preswyl** | | | | | | | | | | | | |
| **Clwstwr 1** | | | | | | | | | | | | |
| **PrC1/h10** | Brynhyfryd | 1.4 | | | 7.8 | 4.5 | 20 | 22 | 53 | 45 | 42 | Mae'r safle'n elwa o berthi sydd yno'n barod, ac sy'n cyfrannu tuag at orchudd canopi trefol. |
| **PrC1/h12** | Heol Castell Pigyn, Abergwili | 1.6 | | | | 5.7 | 22 | 19 | 61 | 34 | 38 | Mae'r safle'n cyfrannu tuag at orchudd canopi trefol. |
| **PrC1/h4** | Tir gerllaw Parc y Delyn | 1.5 | | | 6.2 | 7.8 | 19 | 22 | 56 | 43 | | Mae'r safle'n elwa o berthi sydd yno'n barod, ac sy'n cyfrannu tuag at orchudd canopi trefol. |
| **PrC1/h5** | Dwyrain o Rhodfa Deveraux | 0.3 | | | 26 | 7.3 | 13 | 16 | 52 | 45 | | Mae Perthi a Choed Trefol i'w gweld ar hyd a lled y safle. |
| **PrC1/h8** | Heol Llansteffan | 1.6 | | | 5.2 | 2.8 | 30 | 29 | 52 | 38 | 75 | Tua 20m o ACA a SDdGA Afon Tywi (er nad yw o fewn dalgylch ffosffad sensitif). Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i ddyfrgwn. |
| **SeC1/h4** | Cae Canfas, Heol Llanelli | 0.7 | | | | | 29 | 44 | 58 | 38 | 0 | |
| **SeC1/h7** | Tir cyfagos Heol Glyndwr | 0.5 | | | | | 18 | 33 | 50 | 35 | 38 | |
| **Sec2/h2** | Tir y tu cefn i Parc y Ffynnon | 0.6 | | | | | 26 | 32 | 56 | 37 | 0 | Tua 320m o CBEEMS. Penderfynodd HRA nad yw agosrwydd y safle yn debygol o gael effaith o bwys. |
| **SuV1/h1** | Gerllaw Fron Heulog | 0.6 | | | | | 27 | 33 | 60 | 41 | | |
| **SuV1/h2** | Tir gerllaw Lleine | 0.7 | | | | | 27 | 33 | 60 | 41 | | |
| **SuV10/h2** | Aberdeuddwr / Pantyfedwen | 1.6 | | | | | 18 | 23 | 45 | 38 | | |
| **SuV11/h1** | Tir ar Ysgol Alltwalis | 0.4 | | | | | 27 | 38 | 53 | 43 | 0 | Mae'r safle gerllaw cwrs dŵr ac mae wedi'i gysylltu'n ofodol ag ACA Afon Tywi. Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i ddyfrgwn. |
| **SuV12/h1** | Gerllaw Gwyn Villa | 1.5 | | 12.2 | | | 26 | 27 | 61 | 44 | 0 | Mae astudiaeth ddesg yn dangos darn gwasgaredig o Laswellt y Gweunydd a Phorfeydd Brwyn (Cynefin Adran 7) i'r gogledd orllewin o'r safle. Gan ddibynnu ar argymhellion yn dilyn arolygon ecolegol ar y safle, rhaid dilyn yr hierarchaeth liniaru. Hefyd, mae'r safle'n ffinio â hectar o goetir i'r Gorllewin. Mae'r safle gerllaw cwrs dŵr ac mae wedi'i gysylltu'n ofodol ag ACA Afon Tywi. Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i ddyfrgwn a'r amgylchedd dyfrol. |

| Cyf Safle | Enw | Ardal (Ha) | PEN | Cynefin S7 | Coed Trefol | Perthi | Fframwaith Gwydnwch | | | | | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | D | E | C[1] | C[2] | A | |
| **SuV12/h2** | Llandre | 0.4 | | | | | 23 | 30 | 50 | 45 | 0 | Mae'r safle gerllaw cwrs dŵr ac mae wedi'i gysylltu'n ofodol ag ACA Afon Tywi. Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i ddyfrgwn a'r amgylchedd dyfrol. |
| **SuV14/h1** | Fferm Cefn | 1.9 | 20.4 | | | | 28 | 38 | 53 | 43 | 25 | Gallai'r safle fod yn bwysig i gysylltedd ecolegol Glaswelltir Lled-Naturiol. Dylai SGG ar y safle geisio creu, cyfoethogi, neu adfer cynefinoedd perthnasol (yn enwedig felly o fewn yr ardal PEN) i gynorthwyo cysylltedd rhwng safleoedd gwarchodedig gerllaw. |
| **SuV16/h1** | Heol Llwynddewi | 0.6 | | | | | 23 | 35 | 47 | 47 | | O Fewn Dalgylch ACA Afonol Ffosffad Sensitif. |
| **SuV17/h1** | Y Tu ôl i hen saernïaeth, Ffordd yr Orsaf | 1.5 | | | | | 13 | 11 | 53 | 45 | | O Fewn Dalgylch ACA Afonol Ffosffad Sensitif. |
| **SuV19/h2** | Tir gerllaw a ti cefn i Haulfan | 0.9 | | | | | 20 | 38 | 53 | 41 | | |
| **SuV20/h1** | Tir gerllaw Fferm Llwynhenry | 0.5 | | | | | 26 | 27 | 53 | 47 | 0 | |
| **SuV4/h1** | Tir yn Fferm Troed Rhiw | 0.6 | | | | | 31 | 50 | 53 | 38 | 0 | Mae'r safle gerllaw cwrs dŵr ac mae wedi'i gysylltu'n ofodol ag ACA Afon Tywi a CBEEMS. Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i ddyfrgwn a'r amgylchedd dyfrol. |
| **Clwstwr 2** | | | | | | | | | | | | |
| **PrC2/h1** | Beech Grove, yPwll | 0.7 | 16.2 | | | | 33 | 45 | 51 | 33 | 0 | Gallai'r safle fod yn bwysig i gysylltedd ecolegol Coetiroedd Brodorol. Dylai SGG ar y safle geisio creu, cyfoethogi, neu adfer cynefinoedd perthnasol (yn enwedig felly o fewn yr ardal PEN) i gynorthwyo cysylltedd rhwng safleoedd gwarchodedig gerllaw. |
| **PrC2/h10** | Tir gerllaw Y Dell, Ffwrnes | 3.3 | | | 6.1 | | 25 | 34 | 46 | 44 | 100 | Yn ôl NFI2020 mae'r safle'n 99.5% coetir, cafodd y rhan fwyaf eu torri ond caiff ei amgylchynu gan goed llydanddail. Mae'r safle'n parhau i gyfrannu at orchudd canopi trefol. Mae'r safle wedi'i gysylltu'n ofodol â CBEEMS. Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i'r amgylchedd dyfrol. |
| **PrC2/h16** | Ynys Las, Cefncaeau | 1.4 | | | 0.9 | | 20 | 36 | 30 | 43 | | Mae'r safle wedi'i gysylltu'n ofodol â CBEEMS. Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i'r amgylchedd dyfrol. |
| **PrC2/h20** | Harddfan, Bryn | 0.2 | | | 19 | | 19 | 30 | 25 | 38 | | Mae'r safle'n cyfrannu tuag at orchudd canopi trefol. |
| **PrC2/h23** | Porth Dwyrain Dafen | 5.5 | | | 1.1 | 0.7 | 23 | 33 | 36 | 41 | | Mae'r safle wedi'i gysylltu'n ofodol â CBEEMS. Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i'r amgylchedd dyfrol. |

| Cyf Safle | Enw | Ardal (Ha) | PEN | Cynefin S7 | Coed Trefol | Perthi | Fframwaith Gwydnwch | | | | | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | D | E | C1 | C2 | A | |
| **SeC3/h2** | Tir oddi ar Stryd | 0.9 | | | 6.3 | | 22 | 31 | 73 | 45 | | Mae'r safle'n cyfrannu tuag at orchudd canopi trefol, ac mae wedi'i gysylltu'n ofodol â CBEEMS. Penderfynodd HRA y gallai agosrwydd y safle at gwrs dŵr greu peryglon i ddyfrgwn a'r amgylchedd dyfrol. |
| Ardaloedd MUGA a pharciau sglefrio | Maes Chwarae Amlddefnydd (MUGA) a Pharciau Sglefrio. | Mapiwyd rhai trwy<br>Haenau man gwyrdd AO<br>• Lle chwarae |
| Man gwyrdd ffwythiannol | SuDS a storfeydd llifogydd. | Dim mapio ar gael ar hyn o bryd |
| Man gwyrdd ar gyfer amwynderau a thir agored | Maent fel arfer mewn dwylo a than reolaeth gyhoeddus ac ar gael i'r cyhoedd yn rheolaidd. Gall eu gwerth tirluniol fod yn fach oherwydd dylunio gwael. Maent yn cynnwys man gwyrdd 'dros ben' mewn datblygiadau tai a datblygiadau eraill, yn ogystal â'r rhan fwyaf o leiniau ymyl ffordd. Maent yn cynnwys llecynnau hamdden anffurfiol, darnau o dir glas o gwmpas tai a lleiniau pentref a llecynnau gwaith megis swyddfeydd. | Asesiad man gwyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Man gwyrdd ar gyfer amwynder |
| Glaswelltir, rhostir, gweundir, tir prysg | Glaswelltir na chafodd ei wella'n amaethyddol. Mae'n cynnwys twyndir, tir comin a gweirglodd. Mae hefyd yn cynnwys gweundir, prysgwydd a rhedyn. | Haenau tir comin CNC<br>Mapio SINC Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Toeau gwyrdd | Toeau adeiladau, cysgodfannau bysiau neu unrhyw fath arall o adeiladwaith a orchuddiwyd yn rhannol neu'n gyfan gwbl gan lystyfiant. | Dim mapio ar gael ar hyn o bryd |

| | | |
|---|---|---|
| Waliau Gwyrdd / Waliau Byw | Wal a orchuddiwyd yn rhannol neu'n gyfan gwbl gan wyrddlesni. | Dim mapio ar gael ar hyn o bryd |
| Safleoedd Treftadaeth a Pharciau a Gerddi Hanesyddol | Stadau gwledig hanesyddol, parciau cyhoeddus trefol hanesyddol a safleoedd a chofebion hanesyddol. | Haen henebion rhestredig CADW (GD)<br>Haen cestyll (GD) |
| Tiroedd Sefydliadol | Man gwyrdd yn nhiroedd sefydliadau fel ysgolion, prifysgolion a cholegau, ysbytai a chartrefi nyrsio. Nid yw'n cynnwys cyfleusterau chwaraeon awyr agored. | Cynhwysir yn rhannol yn<br>asesiad man gwyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cyfleusterau chwaraeon awyr agored<br>Maes Chwaraeon<br>Caeau Chwarae (FIT) | Mae'n cynnwys meysydd chwaraeon, caeau chwarae ysgolion a sefydliadau eraill, cyrsiau golf a gweithgareddau awyr agored eraill. Mae fel arfer yn cynnwys arwynebau chwaraeon llystyfiannol, perthi, coed a chloddiau ffin. Gall ddigwydd mewn parciau. | Asesiad man gwyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Cyfleuster chwaraeon awyr agored<br>Haenau man gwyrdd AO<br>• Chwaraeon eraill<br>• Meysydd chwarae<br>• Cwrs golff<br>• Lawnt Fowlio<br>• Cyrsiau tenis |
| Parciau neu erddi cyhoeddus | Mae'n cynnwys parciau trefol, parciau gwledig a pharciau ffurfiol. Fe'u cynlluniwyd gan amlaf i'w defnyddio a'u mwynhau gan y cyhoedd. Gallant gynnwys cyfleusterau sy'n gallu cryfhau ymlyniad ymwelwyr tuag atynt. | Asesiad man gwyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Parciau a Gerddi<br>Haenau man gwyrdd AO<br>• Parciau a Gerddi Cyhoeddus |
| Gerddi domestig preifat | Man gwyrdd preifat mewn anheddau unigol nad ydynt yn gyffredinol yn agored i'r cyhoedd. Mae maint y darnau tir hyn yn amrywio ond maent yn aml yn rhan arwyddocaol o ffabrig gwyrdd ardaloedd trefol. Gall y tir gynnwys coed, prysg, gwair a phlanhigion blodeuol. | Haen Topograffi Mastermap<br>• Labelwyd 'Lluosog' |
| Hawliau tramwy cyhoeddus | Llwybrau sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n cynnwys cyfleusterau fel llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau a phalmentydd. Maen nhw'n aml yn cynnig neu'n gwella cysylltiadau â thiroedd glas neu agored eraill. | Mapio Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| Coed stryd | Yn gyffredinol, mewn ardaloedd trefol. Rhes/casgliad o goed ar hyd ochr ffordd. | Asesiad Gorchudd Coed Trefol CNC 2013 |

| | | |
|---|---|---|
| Corff Dŵr | Darnau o ddŵr agored, gan gynnwys llynnoedd mawrion, pyllau bach, cronfeydd dŵr a harbyrau. Mae hefyd yn cynnwys y môr. | Asesiad man gwyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Dŵr mewndirol |
| Cwrs Dŵr | Pob ardal yn cynnwys dŵr rhedeg, gan gynnwys afonydd, aberoedd, nentydd bychain, camlesi a thraphontydd. | Haenau man gwyrdd AO<br>• Merddwr |
| Gwlyptir | Tir llawn cynefinoedd gwlyb, gan gynnwys mign galchog, cors, mawnog a llystyfiant rhuthr dŵr. Caiff gwlyptiroedd yn gysylltiedig ag arfordiroedd eu hystyried yn gynefinoedd arfordirol. | Asesiad man gwyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Naturiol a lled-naturiol<br>• Dŵr mewndirol<br>Mapio SINC Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Coetir | Pob math o goetiroedd gan gynnwys coetir collddail (lled-naturiol hynafol a choetiroedd) a choetir cymysg a chonifferaidd (gan gynnwys planhigfeydd a lleiniau cysgodi) yn cynnwys coetiroedd newydd eu plannu. | Mynediad Agored CRoW – Coedwigoedd Pwrpasol<br>Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol 2016 |

## Atodiad B: Cysoni Themâu Seilwaith Gwyrdd a Glas - Asedau a Swyddogaeth

| Themâu a Swyddogaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas | | Asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhandiroedd | Mynwentydd | Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored | Parciau a Gerddi | Man gwyrdd ar gyfer amwynderau | Mannau Chwarae | Gerddi preifat | Llwybrau teithio llesol | Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Gwern mign galchog | Coetir | Gorlifdir pori | Rhostir | Twyni tywod | Glaswelltir corsiog | Cors | Morfa heli | Merddwr | Tir Comin | Gwrychoedd | Tir agored | Coed stryd trefol | Toeau gwyrdd | Waliau gwyrdd | Gwlyptiroedd | Safleoedd natur dynodedig | Safleoedd daearegol dynodedig |
| Iechyd & Llesiant | Hamdden | X | X | X | X | X | X | X | X | X | | X | | X | X | | | | X | X | | X | | | | | X | |
| | Teithio Llesol | | | | | | | | X | X | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Dal llygryddion awyr | | | | | | | | | | X | X | | | | | X | | | | X | | X | X | X | X | | X |
| Bioamrywiaeth | Peillio | X | X | X | X | X | | X | | | X | X | X | X | X | X | | X | | X | X | X | X | X | X | X | X | |
| | Cynefin i fywyd gwyllt | | X | | X | | | X | | | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | |
| | Rhodfa i fywyd gwyllt | X | X | X | X | X | X | X | | | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | |
| Newid yn yr Hinsawdd & Cynaliadwyedd | Cysgodi rhag yr haul | | | | | | | | | | | X | | | | | | | | | | | X | X | X | | | |
| | Sefydlogi pridd | | | | | | | | | | | X | | | X | | | X | | | X | | | | | | | |
| | Storio carbon | X | X | X | X | X | X | X | | | X | X | X | X | X | X | X | | | X | X | X | X | X | X | X | | X |
| | Storio a chludo dŵr | | X | X | X | X | X | X | | | X | X | X | X | | X | X | X | X | X | | X | X | X | X | X | | |
| | Amddiffyn rhag stormydd arfordirol | | | | | | | | | | | | X | | X | | | X | | | | | | | | X | | |
| | Gwaredu llygryddion | | | | | | | | | | X | X | | | | | X | | | | | | X | X | X | X | | X |
| Cydlyniant cymdeithasol | Llecynnau cymunedol | X | X | X | X | X | X | X | X | X | | X | | | | | | | X | X | | X | X | | | | X | X |
| | Cynhyrchu bwyd yn lleol | X | | | | | | X | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Economi | Darparu swyddi | | X | X | X | | | X | X | X | | X | | | | | | | | | X | | X | X | X | X | X | X |
| | Dysgu Gydol Oes | X | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | X | X |
| | Sgiliau a Gwirfoddoli | X | | X | | | | | | | | | | | | | | | | | X | | | | | X | X | X |
| Ymdeimlad o le | Cyfraniad gweledol i'r dirwedd | | | | X | X | | X | | | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | |
| | Cysylltiad â'r amgylchedd lleol | X | | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | | X | X | X | X | X | X | X |
| | Amsugno sŵn | | | | | | | | | | | X | | | | | | | | | | | X | X | X | | | |
| | Treftadaeth a Diwylliant | X | X | X | X | | | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | | X | X | X | X | X | X | X |

# Atodiad C: Nodi Materion y CDLl diwygiedig

Mae'r 38 mater cryno fel a ganlyn, wedi'u rhannu dros bob Thema Seilwaith Gwyrdd a Glas. Nodir rhagor o fanylion yn y Papur Pwnc – Materion, Gweledigaeth ac Amcanion.

## Ymdeimlad o le

8. Nodweddion tirwedd a threflun cyfoethog

12. Mae harddwch, heddwch a thawelwch, man gwyrdd helaeth ac awyr iach hefyd yn cyfrannu at hapusrwydd mewn ardaloedd gwledig

22. Sir wledig yn bennaf, lle y mae 60% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig

26. Mae angen gwerthfawrogi'r Naws am Le - sir o wrthgyferbyniadau

27. Adeiladau diffaith ar draws y Sir

28. Mae angen mesur effaith datblygiadau ar y Gymraeg

30. Safleoedd archaeolegol a nodweddion hanesyddol o bwys

31. Y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

## Iechyd a Llesiant

9. Poblogaeth sy'n heneiddio

10. Dywedir fod 60% o oedolion yn rhy drwm neu'n ordew

13. Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Llandeilo

14. Y newid mawr i'n GIG ac unrhyw oblygiadau

## Bioamrywiaeth

6. Dynodiadau bioamrywiaeth yn amrywio o lefelau rhyngwladol i leol

Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd

5. Risgiau o lifogydd a'r heriau y mae newid hinsawdd yn eu cyflwyno

7. Ôl troed ecolegol sy'n croesi lefelau cynaliadwy ar hyn o bryd

23. Gofalu y gall capasiti seilwaith gefnogi datblygiadau, gan gynnwys priffyrdd

24. Yr angen i hyrwyddo a dod o hyd i ffurfiau amgen o drafnidiaeth

33. Yr angen i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn datblygiadau arfaethedig a chyfredol

UCI 1 Ymateb i gyhoeddi Canllawiau CNC ar Lefelau Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol gwarchodedig.

UCI 4 Datganiad gan y Cyngor o Argyfwng Natur.

## Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd

11. Mae bywyd cymunedol, addysg a gwasanaethau cyhoeddus yn arwyddion o lesiant mewn ardaloedd gwledig

15. Amddifadedd gwledig a threfol

16. Mae mwy nag 1 aelwyd o bob 3 yn byw mewn tlodi

17. Targed y Cyngor i ddarparu 1,000 o dai fforddiadwy

18. Dim digon o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu mewn rhai Canolfannau Gwasanaethau a Chanolfannau Gwasanaethau Lleol

19. Prinder cyflenwad tir adeiladu tai a’r angen am gymysgedd o dai

20. Mae newidiadau yn y rhagfynegiadau poblogaeth ac aelwydydd yn dangos fod angen llawer llai o gartrefi hyd at 2033.

21. Safleoedd tai ddim yn cael eu dynodi a’u hadeiladu

29. Mae angen tai fforddiadwy yn ein cymunedau er mwyn cadw teuluoedd ifanc

UCI 3 Datganiad gan y Cyngor o Argyfwng Hinsawdd.

UCI 5 Menter Deg Tref.

## Economi

1. Bargen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £1.3 biliwn, yn cynnwys prosiectau a gytunwyd yn Llanelli a Chaerfyrddin

2. Lefelau amrywiol o fywiogrwydd a phrysurdeb yn ein trefi manwerthu

3. Mae angen twf priodol mewn ardaloedd gwledig (gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth)

4. Economi ymwelwyr fywiog a’r potensial i dyfu

25. Diffyg cyfleoedd cyflogaeth, band eang a gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig

UCI 2 Cydnabod ac adlewyrchu'r effeithiau sy'n deillio o Covid-19.

# Atodiad D: Ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Arolwg ar-lein

Ar 20 Hydref 2021 anfonwyd arolwg ar-lein at ystod eang o dros 150 o ymgynghorwyr. Roedd hyn yn cynnwys:

- Rhanddeiliaid statudol/technegol.
- Aelodau etholedig a chynghorwyr tref.
- Grwpiau cymunedol sydd â buddiant/cyfran mewn Seilwaith Gwyrdd a Glas

Gofynnwyd i ymgynghoreion am:

- Eu barn ar y Weledigaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas ddrafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin (a gymerwyd o'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd presennol).
- Eu barn ar sut y mae'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas ym mhob tref yn perfformio o safbwynt y themâu Pobl, Natur a Lle, ynghyd â rhesymau dros y sgoriau hyn.
- Unrhyw gyfleoedd neu brosiectau parhaus ym mhob un o'r trefi hyn.

Cafwyd cyfanswm o 50 o ymatebion i gyd i'r arolwg ar-lein.

## Map rhyngweithiol

Anfonwyd y ddolen i'r map rhyngweithiol ynghyd â'r arolwg, ar yr un dyddiad ac i'r un rhanddeiliaid. Roedd y map yn caniatáu i randdeiliaid adael pwyntiau ar y map ar draws unrhyw un o'r 8 tref, gan nodi naill ai:

- Cryfderau
- Lle i wella, neu
- Cyfleoedd

Cafodd cyfanswm o 149 o sylwadau eu gadael ar y map rhyngweithiol. Roedd nifer y sylwadau a oedd yn berthnasol i bob ardal fel a ganlyn:

- Caerfyrddin: 33
- Llanelli: 50
- Rhydaman/ Cross Hands: 29
- Cydweli: 17
- Sanclêr: 7
- Llanymddyfri: 9
- Castellnewydd Emlyn: 4
- Cwmaman: 0

## Gweithdai rhithwir

Cynhaliwyd tri gweithdy rhithwir, a oedd yn cynnwys cyflwyniad gan LUC ac aelod etholedig Cyngor Sir Caerfyrddin, ac yna cafwyd trafodaeth am heriau a chyfleoedd allweddol cyffredinol gan ddefnyddio 'bwrdd gwyn rhithwir' MIRO. Roedd pob gweithdy wedi'i dargedu at gategori gwahanol o randdeiliad.

Cymerodd cyfanswm o 48 o bobl ran yn y gweithdai rhithwir. Roedd hyn yn cynnwys:

- 21 o randdeiliaid technegol yng Ngweithdy 1.
- 21 Aelod Etholedig yng Ngweithdy 2.
- Chwech o gynrychiolwyr grwpiau cymunedol yng Ngweithdy 3.

## Sylwadau ar Weledigaeth Ddrafft

Gofynnwyd i ymgyngoreion wneud sylwadau ar weledigaeth ddrafft arfaethedig ar gyfer Seilwaith Gwyrdd a Glas yn Sir Gaerfyrddin. Roedd ymatebion yr ymgyngoreion fel a ganlyn:

- Pryderon ynghylch rheoli natur o'r brig i lawr.
- Mae angen mwy o bwyslais ar greu lleoedd a seilwaith glas.
- Pryderon ynghylch mynediad TG (proses ymgynghori)
- Angen am ymrwymiad hirdymor a'r gymuned fel partner.
- Angen cadw a thyfu mannau gwyrdd/ardaloedd coediog.
- Rhy eiriog - mae angen Saesneg clir ac eglurder ynghylch beth yw ystyr 'gwyrdd'. Gormod o jargon / iaith gorfforaethol ac mae'n rhy hir. Os yw'n fwy hygyrch, bydd yn weledigaeth fwy cyffredin.
- Angen mwy o bwyslais ar reoli bioamrywiaeth.
- Angen mwy o gydlyniant ymhlith asedau tameidiog.
- Angen ailedrych ar gynigion adeiladu a gweld a ydynt yn cydymffurfio â'r Weledigaeth.
- Dylai'r weledigaeth gyfeirio at Newid Hinsawdd a gweithio tuag at Gyngor carbon-niwtral.
- Angen cydnabod yr angen i adfer o ddifrod a achoswyd gan weithgarwch dynol.
- Angen cynnwys gweithio gyda'r amgylchedd.

## Sylwadau ar bob un o'r trefi ffocws

*Caerfyrddin: Pobl*

- Angen cydlynu a buddsoddi mewn mannau gwyrdd.
- Diffyg mannau gwyrdd a chynnal a chadw gwael.
- Rhywogaethau goresgynnol yn yr afon
- Ychydig o lonydd beicio.
- Tirwedd hardd ond nid yw'n hygyrch i bob cenhedlaeth.
- Gormod o seilwaith caled yn y canol/parth cyhoeddus gwael, a chyfundrefnau plannu/tirlunio ddim yn darparu gwasanaethau ecosystem.
- Angen mwy o gyfleusterau chwarae yng nghanol y dref.
- Llawer o ddefnydd o geir yn y canol.
- Angen mwy o wyrddu trefol yng nghanol trefi.
- Angen ymgysylltu â'r gymuned ynghylch pa brosiectau sy'n cael eu datblygu.
- Cyfle mawr ar gyfer seilwaith e-feiciau.
- Cwmpas y tu allan - trafnidiaeth gyhoeddus.

*Caerfyrddin: Natur*

- Pryderon ynghylch dygymod â lefelau dŵr yn codi – cyfle am SuDS.
- Cynefinoedd afonydd yn cael eu bygwth gan ddatblygiad ac mewn cyflwr gwael.
- Ychydig iawn o natur yn y dref, dim ardaloedd gwyllt ac ychydig o goed aeddfed.
- Mae angen gwarchod rhandiroedd a gwlyptiroedd.

*Caerfyrddin: Lle*

- Caiff ymdeimlad o hunaniaeth a hanes ei hyrwyddo'n dda.
- Mae gan y dref lawer o botensial i ddenu pobl, ond mae ymddangosiad cyffredinol y dref/diffyg cynnal a chadw yn effeithio ar y sector twristiaeth - mae'r dref yn edrych yn flinedig/mae sbwriel o gwmpas y lle.
- Mae angen gwneud mwy o lan yr afon.
- Angen mwy o seddi awyr agored a bywyd awyr agored (cerddoriaeth/perfformiadau).
- Mae angen lle i fyfyrio.
- Byddai SuDS a waliau gwyrdd yn cyfrannu at le yn ogystal â gwasanaethau ecosystem.
- Gormod o arwynebau caled a gormod o geir.

*Caerfyrddin: Prosiectau ar waith*

- Mae'r Gymdeithas Ddinesig yn rheoli'r gwelyau blodau.
- Cynllun Teithiau Cerdded Hanesyddol y Cyngor Tref
- Cymdeithas Glan yr Afon Caerfyrddin.
- Gwaith parhaus i wella'r ardal o wlyptir.

*Llanelli: Pobl*

- Ffocws ar y rheiny nad ydynt yn elwa o Seilwaith Gwyrdd a Glas.
- Mannau gwyrdd yn cael eu colli i ddatblygu.
- Diffyg buddsoddiad ac angen "gwerthu" y dref yn well.
- Nid yw ochr ogledd-ddwyreiniol y dref wedi'i datblygu'n ddigonol e.e. llwybrau i fyny i Ddyffryn y Swistir a Chwarel Pen y Fan.
- Mae llwybr cerdded/beicio'r arfordir yn llwyddiannus ac yn bwysig.
- Pryderon ynghylch camdriniaeth/ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau gwyrdd.
- Ansawdd aer gwael ar hyd yr A484.
- Angen mwy o seddi ar lwybrau ac mewn parciau i bobl hŷn.

*Llanelli: Natur*

- Dibyniaeth uchel ar gyllid grant/diffyg refeniw.
- Mae newid hinsawdd yn flaenoriaeth isel yn y system gynllunio.
- Mae rhai cyfundrefnau torri gwair wedi newid - ond pa mor effeithiol yw hyn?
- Angen mwy ar gyfer pryfed peillio e.e. bocsys gwenyn.
- Lle i blannu mwy o goed ym Mhen y Fan a Pharc Sandy.
- Llawer o wyrddni o gwmpas y dref.
- Angen mwy o goed stryd.
- Diffyg bioamrywiaeth a rheolaeth wael ar natur.

*Llanelli: Lle*

- Mae angen buddsoddi yng nghanol ac o gwmpas trefi.
- Nid yw'r dref yn denu pobl i mewn, a symudodd siopau allan i Barc Trostre. Mae'n edrych yn ddi-liw ac yn flinedig.
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn rhai mannau / o gwmpas seddau.
- Gallai wneud mwy o botensial twristiaeth gan ddefnyddio Seilwaith Gwyrdd – coed stryd, blychau plannu, tirlunio, ymylon, mwy o gysylltiadau.
- Angen mwy o ffocws ar lwybrau cerdded rhwng yr orsaf a chanol y dref, yn ogystal â llwybrau cerdded hanesyddol.

*Llanelli: Prosiectau ar waith*

- Ailddatblygu Tyisha.
- Gwaith ailddatblygu Peltra ym mharc Pen y Fan
- Sefydliad Cruyff
- Ailddatblygu canolfan lesiant yn ardal llynnoedd Delta.
- Prosiectau Bwyd Bendigedig.
- Fforymau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor Tref ym Mhorth Tywyn.
- Datblygwyd cornel wyllt o Barc Pwll ar gyfer blodau gwyllt/pryfed peillio (Naturiaethwyr Llanelli/Cymdeithas Trigolion Pwll/Cyngor Gwledig Llanelli).
- Sefydliad y Merched yn ceisio mabwysiadu ardaloedd ar gyfer bywyd gwyllt.
- Clwb Rotari yn gobeithio hyrwyddo cynlluniau amgylcheddol yn Llanelli.

*Rhydaman / Cross Hands: Pobl*

- Mae angen dychymyg/mae llawer mwy y gellir ei wneud.

*Rhydaman / Cross Hands: Prosiectau ar waith*

- Adfywio parciau (y Betws)

*Cydweli: Pobl*

- Galw am ddiogelu Gwarchodfa Natur Glan yr Afon.
- Adnoddau naturiol gwych fel ar yr aber – ond nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi a chaiff cynefinoedd eu colli. Angen gwelliannau.
- Rheoli nodweddion mewn modd ansensitif e.e. gadael rhai ardaloedd yn wyllt.
- Mannau gwyrdd poblogaidd wrth y Cei a'r ardaloedd cyfagos.
- Gellid gwella'r llwybr beicio rhwng Cydweli a Phen-bre ymhellach.
- Llwybrau troed yn cael eu herydu gan gerbydau modurol.
- Llwybrau troed yn cael eu cynnal a'u cadw'n wael yn y Cei a Glan yr Afon.
- Perygl llifogydd - mae angen mwy o le i amsugno dŵr llifogydd o fewn y parth llifogydd.
- Ffyrdd nad ydynt yn ddiogel ar gyfer beicio – gan gynnwys Llwybr Sustrans 4.

*Cydweli: Natur*

- Mae'r castell yn atyniad ar gyfer twristiaeth, ond mae agweddau naturiol ar y dref yn cael eu tanbrisio a'u bygwth gan ddatblygu.
- Dim ond newydd roi'r gorau i ddefnyddio plaladdwyr/chwynladdwyr y mae'r Cyngor, ond nid yw'r trigolion yn hoffi ardaloedd 'anniben'. Mae angen ail-addysgu.
- Mae angen gofalu am goed - ond mae'n costio arian.
- Digonedd o fywyd gwyllt wrth y Cei a Glan yr Afon.
- Ceir cymuned gref o wirfoddolwyr sy'n gofalu am fannau gwyrdd.
- Mae'r tir wrth yr hen gamlas yn dda ar gyfer natur a'r hen safle tirlenwi + llecynnau braf eraill.

*Cydweli: Lle*

- Mae'r dref yn edrych yn anniben ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n wael. Angen gwell cefndir ar gyfer atyniad y castell. Caniatawyd i'r dref ddirywio, sy'n rhoi argraff wael i ymwelwyr.

- Angen ymagwedd integredig tuag dwristiaeth a Seilwaith Gwyrdd a Glas – fel tref aber.
- Mae'r castell a'r ardaloedd cyfagos yn cael gofal da, ond nid gweddill y dref.
- Ardal fach wedi'i phalmantu ger yr eglwys yn cael ei defnyddio ar gyfer marchnadoedd bach - mae angen mwy o fannau fel hyn.

*Cydweli: Cyfleoedd*

- plannu coed yng Nglan yr Afon a'r Cei a chynnal y cynefinoedd, y llwybrau cerdded a'r arwyddion.
- Ardaloedd ar ochr y gamlas (Camlas Kymer) – e.e. mwy o ardaloedd blodau gwyllt, llochesi, byrddau picnic, cuddfannau.
- Cynyddu diddordeb mewn bywyd gwyllt yma gan ddefnyddio paneli gwybodaeth a chysylltiadau ag ysgolion ac ati i annog cariad at fyd natur.
- Gellid gwella llawer o fannau agored ar gyfer natur.
- Profiad Sied Hanes.
- Ailddatblygu Sgwâr y Dref.

*Cydweli: Prosiectau ar waith*

- prosiectau bywyd gwyllt a gwaith gwirfoddol yng Nglan yr Afon.
- Mae Tir Cyffredin Cydweli yn grŵp cadwraethol sydd o ddifrif ac sydd â chyfansoddiad.
- Mae Strategaeth y Gath Ddu yn ceisio annog twristiaeth ond mae angen bod yn gwbl ymwybodol o faterion amgylcheddol.
- Profiad Sied Hanes – ond gwahanol farnau

*Sanclêr*

- Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law drwy'r arolwg.

*Llanymddyfri*

- Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law drwy'r arolwg.

*Castellnewydd Emlyn: Pobl*

- Rhai llwybrau cerdded da, ond lle am fwy.
- Mae'r ardaloedd gwyrdd presennol yn cael eu cynnal a'u cadw'n wael.

*Castellnewydd Emlyn: Lle*

- Mae rhai busnesau wedi cau pan gaeodd banciau - mae'n bosibl y bydd twristiaid yn mynd heibio i'r dref. Caiff atyniadau'r dref eu hysbysebu'n wael.

*Cwmaman: Pobl*

- Da (a gwaith da dros y blynyddoedd diwethaf) ond lle i wella
- Llwybr cerdded ardderchog ar lan yr afon.

*Cwmaman: Natur*

- Angen plannu blodau gwyllt

*Cwmaman: Lle*

- Ffyrdd o wella ymdeimlad o le e.e. mewn lleoliadau allweddol – sefydlu hunaniaeth o amgylch treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog.
- Ychydig iawn o dwristiaeth ac ychydig iawn i'w wneud.

*Cwmaman: Cyfleoedd*

- Trwy Swyddog Datblygu Cymunedol. Llawer o brosiectau parhaus.

## Crynodeb o'r drafodaeth

Cynhaliwyd tri gweithdy rhithwir, a oedd yn cynnwys cyflwyniad gan LUC ac aelod etholedig Cyngor Sir Caerfyrddin, ac yna cafwyd trafodaeth am heriau a chyfleoedd allweddol cyffredinol gan ddefnyddio 'bwrdd gwyn rhithwir' MIRO. Mae'r holl sylwadau a godwyd yn y drafodaeth wedi'u cynnwys mewn 'cipluniau' o'r bwrdd gwyn rhithwir yn Atodiad A.

Dechreuodd y drafodaeth gyda chyflwyniad i dair thema graidd y bydd y strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas yn canolbwyntio arnynt: pobl, natur a lle. Yna ysgogwyd yr ymgyngoreion i drafod y cwestiynau canlynol gan ganolbwyntio ar y themâu craidd:

- Beth yw'r prif faterion a chyfleoedd sy'n wynebu seilwaith gwyrdd a glas yn Sir Gaerfyrddin?
- Beth yw'r prif heriau i gyflawni?

Y prif faterion a godwyd gan yr ymgynghoreion wrth drafod oedd:

Beth yw'r prif faterion a chyfleoedd sy'n wynebu seilwaith gwyrdd a glas yn Sir Gaerfyrddin?

*Pobl*

- Mae trefi Sir Gaerfyrddin yn elwa o barciau a mannau gwyrdd ond mae angen gwella'r ddarpariaeth chwarae, chwaraeon a defnydd hamdden o'r mannau
- Mae Sir Gaerfyrddin yn elwa o rwydwaith o afonydd ond gellid cyflwyno gweithgareddau hamdden i wneud defnydd ehangach ohonynt, deallir bod hyn wedi bod yn llwyddiannus mewn siroedd eraill.
- Mae'r ddarpariaeth o fannau gwyrdd yn dda ar y cyfan ond gall mynediad diogel i gerddwyr i'r mannau hyn fod yn wael.
- Mae'r opsiynau teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus sydd gan bobl mewn ardaloedd gwledig i fynd i barciau, cestyll, llynnoedd ac ati yn wael.
- Roedd trefi a oedd â gweithgareddau hamdden wedi'u trefnu yn fwy llwyddiannus wrth ddod â phobl at ei gilydd i ddefnyddio mannau gwyrdd. Adroddwyd bod hyn yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant.
- Ceir awydd ac angen am fwy o le tyfu cymunedol.
- Dylid annog prosiectau mewn ysgolion e.e. SuDs a phrosiectau sy'n tyfu.
- Gellid darparu mwy o wybodaeth am fannau gwyrdd a glas lleol i annog pobl i'w defnyddio.
- Ystyrir bod iechyd meddwl a chorfforol yn flaenoriaeth ar gyfer mannau gwyrdd a glas.
- Angen llwybrau cerddwyr a beicio mwy diogel a chysylltiedig i ysgolion ac o amgylch trefi.

*Natur*

- Mewn amgylcheddau gwledig, mae angen gwneud mwy i addysgu pobl fel y gallant ddysgu mwy am yr ardal o'u hamgylch. Gallai'r rhain gynnwys byrddau gwybodaeth, apiau neu sesiynau wedi'u trefnu.
- Mae cyfathrebu ac addysg am brosiectau natur yn allweddol i lwyddiant prosiectau.
- Dirywiad bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin.
- Problemau ansawdd dŵr a ffosffad.
- Llifogydd – llanwol ac afonol.
- Draenio cynaliadwy a rheoli dŵr glaw.
- Cynnal a chadw coed yn well.
- Materion amaethyddol a llygredd.
- Meithrin ymdeimlad o falchder mewn byd natur ar gyfer y genhedlaeth nesaf.
- Stiwardiaeth dros asedau naturiol.
- Creu ystafelloedd dosbarth awyr agored.

*Lle*

- Mewn llawer o barciau, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys cam-drin cyffuriau yn bryder. Enwyd Llanelli fel rhywle lle mae rhieni yn ofni mynd â'u plant i fannau gwyrdd yn y dref gan fod yna wydr wedi torri a nodwyddau wedi'u gadael ar y ddaear yn aml.
- Roedd datblygu llwybrau rheilffordd i fod yn llwybrau troed yn cael ei ystyried fel yr opsiwn gorau ar gyfer darparu llwybrau newydd i gefn gwlad.
- Cyfle i gynhyrchu ynni o fewn ardaloedd arfordirol.
- Mynd i'r afael â llygredd sŵn ac aer.
- Adfywio a arweinir gan Seilwaith Gwyrdd a Glas a datblygiadau newydd.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer asedau naturiol.
- Cysylltiad â'r amgylchedd mewn trefi cyn-ddiwydiannol a gwledig.
- Gwella a manteisio i'r eithaf ar asedau gwyrdd, asedau treftadaeth a thirnodau presennol.
- Cyflwyno waliau byw.
- Ail-wylltio ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Beth yw'r prif heriau i gyflawni?

- Her cynnal a chadw a rheoli. Pryder am reoli parciau newydd/mannau hamdden gwyrdd o ystyried diffyg staff a gwirfoddolwyr i reoli'r mannau presennol.
- Dull cydgysylltiedig e.e. menter deg tref – angen gweithio gyda hyn gan fod cysylltiad pwysig rhwng llawer o'r mentrau.
- Arweinyddiaeth ac uwchsgilio cynllunwyr.
- Pryder ynghylch mecanweithiau cyllido ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.
- Gwahaniaeth rhwng mannau preifat a chyhoeddus.
- Cyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas drwy'r system gynllunio a datblygiadau newydd.
- Tir ac afonydd mewn perchnogaeth breifat neu anhysbys.
- Angen cyfathrebu, addysg ac ymgysylltu da.
- Defnyddio adnoddau cymunedol / ynni.
- Swyddogaeth y mannau.

# Cyfeiriadau

---

[1] £8.1bn i gefnogi seilwaith gwyrdd | LLYW. CYMRU

[2] Carbon Sero Net erbyn 2030 (llyw.cymru)

[3] Er y disgwylir yr iteriad nesaf o Bolisi Cynllunio Cymru (fersiwn 12), mae newidiadau arfaethedig i fersiwn 11 wedi'u cyhoeddi mewn llythyr dyddiedig 11 Hydref 2023 oddi wrth Julie James AS/MS. Mae hyn yn rhoi pwyslais cryfach ar GI trwy ofynion datganiadau GI, Budd Net ar gyfer Bioamrywiaeth Bioamrywiaeth a'r Dull Cam-doeth, Gwarchod SoDdGA a Choetiroedd. Mynd i'r afael â'r argyfwng natur drwy'r system gynllunio: polisi cynllunio cenedlaethol wedi'i ddiweddaru ar gyfer Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU

[4] Paragraff 6.2.1 (Polisi Cynllunio Cymru 11)

[5] Kuo (2015) - How might contact nature promote human health? Promising mechanisms and a possible central pathway.

[6] Department of Health (2008) - Health inequalities: progress and next steps

[7] Prifysgol Exeter (Ionawr 2014) - Green spaces deliver lasting mental health benefits.

[8] De Vries S, Verheij, Groenewegen and Spreeuwenberg (2007) - Natural Environments – healthy environments? An exploratory analysis of the relationship between greenspace and health.

[9] Coombs, Jones and Hillsdon (2010) - The relationship of physical activity and overweight to objectively measured green space accessibility and use.

[10] Lovasi, Quinn, Neckerman, Perzanowski and Rundle (2007) - Children living in areas with more street trees have lower prevalence of asthma.

[11] Mind – Ecothery: the green agenda for mental health

[12] Chiesura (2004) - The role of urban parks for the sustainable city - Landscape and Urban Planning, 68, 129–138

[13] Gorenflo Romaine Mittermeier and Walker-Painemilla (2012) - Co-occurrence of linguistic and biological diversity in biodiversity hotspots and high biodiversity wilderness areas.

[14] Pretty, Peacock, Hine, Sellens, South and Griffin (2007) - Green exercise in the UK countryside: Effects on health and psychological well-being, and implications for policy and planning - Journal of Environmental Planning and Management 50(2): 211-231.

[15] Pikora, GBIles-Corti, Knuiman, Bull, Jamrozik and Donovan (2005) - Neighbourhood environmental factors correlated with walking near home: using SPACES - Medicine and Science in Sports and Exercise 2005;38(4):708-714.

[16] Sullivan, W. C., Kuo, F. E. and DePooter, S. F. (2004). The fruit of urban nature: vital neighbourhood spaces. Environment and Behavior 36 (5), 678–700.

[17] Wolfe and Mennis (2012) - Does vegetation encourage or suppress urban crime? Evidence from Philadelphia, PA - Landscape and Urban Planning 2012; 108 (2-4): 112-122.

[18] Davies, P. and Deaville, J. (2008). Natural heritage: a pathway to health. Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

[19] Sunderland (2012) - Microeconomic evidence for the benefits of investment in the environment – Review - Natural England Research Report 033.

[20] Asesiad economaidd o fanteision iechyd cerdded ar Lwybr Arfordir Cymru

[21] Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU (UK NEA) - http://www.teebweb.org/

[22] Natural England (2009) - Our Natural Health Service: The role of the natural environment in maintaining healthy lives - NE

[23] Forestry Commission (2005) Bold Colliery Community Woodland; District Valuer's Report on Property Values, Penrith: Forestry Commission North West England Conservancy.

[24] DG Environment (2012) - Multi-functionality of green infrastructure - EU

[25] EFTEC (2013) - Green Infrastructure's contribution to economic growth: a review - A Final Report for DEFRA and Natural England

[26] BBC (Ionawr 2013) - Wales coastal path brings £16m economic boost - http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-21259987

[27] The Power of Nature for Employee Wellbeing - Business in the Community (bitc.org.uk)

[28] naturalresources.wales/media/4123/tree-cover-in-wales-towns-and-cities-2014-study.pdf

[29] Mortberg and Wallentinus (2000) - Red-listed forest bird species in an urban environment - assessment of green space corridors - Landscape and Urban Planning 50(4): 215-226

[30] Gedge and Kadas (July 2005) - Green roofs and biodiversity – page 161-169, Volume 52 Number 3, BioloGBIst http://livingroofs.org/images/stories/pdfs/Biol_52_3_Kadas.pdf

[31] Baker, P.J. and Harris, S. (2007). Urban mammals: what does the future hold? An analysis of the factors affecting patterns of use of residential gardens in Great Britain. Mammal Review 37 (4), 297–315

[32] Eycott, A., Watts, K., Brandt, G., Buyung-Ali, L., Bowler, D., Stewart, G. and Pullin, A. (2008). Which landscape features affect species movement? A systematic review in the context of climate change. Forest Research report for Defra. Forest Research, Farnham

[33] Funk, A., Reckendorfer, W., Kucera-Hirzinger, V., Raab, R. and Schiemer, F. (2009). Aquatic diversity in a former floodplain: remediation in an urban context. Ecological Engineering 35 (10), 1476–1484.

[34] Helden, A.J. and Leather, S.R. (2004). Biodiversity on urban roundabouts - Hemiptera, management and the species-area relationship. Basic and Applied Ecology 5, 367-377.

[35] Forestry Commission England (no date) – Trees and Climate Change

[36] A. Ismail, M. Samad, A. Rahman, F. Yeok Cooling potentials and CO2 uptake of Ipomoea Pes-Caprae installed on the flat roof of a single storey residential building in Malaysia

[37] Z. Davies, J. Edmondson, A. Heinemeyer, J. Leake, K. Gaston, Mapping an urban ecosystem service: quantifying above-ground carbon storage at a city-wide scale J. Appl. Ecol., 48 (5) (2011), pp. 1125-1134

[38] Gill, S.E., Handley, J.F., Ennos, A.R. and Pauleit, S., 2007. Adapting cities for climate change: the role of the green infrastructure. *Built environment*, *33*(1), pp.115-133.

[39] Potchter, O., Cohen, P. and Britan, A. (2006). Climatic behavior of various urban parks during hot and humid summer. *International Journal of Climatology* 26 (12), 1695–1711.

[40] Beckett, K.P., Freer-Smith, P.H. and Taylor, G. (1998). Urban woodlands: their role in reducing the effects of particulate pollution. *Environmental Pollution* 99, 347–360.

[41] European Environment Agency (2012) - EU Forests, Health & Climate Change.

[42] Jeffries R., Darby, S.E. and Sear, D. A. (2003). The influence of vegetation and organic debris on flood-plain sediment dynamics: case study of a low-order stream in the New Forest, England. *Geomorphology* 51, 61–80 / Vellidis, G., Lowrance, R., Gay, P. and Wauchope, R.D. (2002). Herbicide transport in a restored riparian forest buffer system. *Transactions of the ASAE* 45, 89–97.

[43] VanWoert, N.D., Rowe, D.B., Andresen, J.A., Rugh, C.L., Fernandez, R.T. and Xiao, L., 2005. Green roof stormwater retention. Journal of environmental quality, 34(3), pp.1036-1044.

[44] Nodyn Cyfarwyddyd 042 Asesiadau Seilwaith Gwyrdd (fersiwn derfynol Mehefin 2021 (cyfoethnaturiol.cymru)

[45] The-critical-role-of-infrastructure-for-the-SDGs_EN.pdf (unops.org)

[46] Shackleton, C.M., 2021. Urban green infrastructure for poverty alleviation: evidence synthesis and conceptual considerations. *Frontiers in Sustainable Cities*, *3*, p.710549.

[47] Infrastructure-for-climate-action_EN.pdf (unops.org)

[48] https://naturalresources.wales/media/693210/sonarr2020-crynodeb-gweithredol.pdf

[49] wwt.org.uk/uploads/documents/2023-07-31/wwt-water-quality-route-map.pdf

[50] Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019: mae 17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu (senedd.cymru)

[51] Estreguil, C., Dige, G., Kleeschulte, S., Carrao, H., Raynal, J. and Teller, A., Strategic Green Infrastructure and Ecosystem Restoration: geospatial methods, data and tools, EUR 29449 EN, Publications Office of the European Union, Luxembourg, 2019, ISBN 978-92-79-97294-2, doi:10.2760/06072, JRC113815.

[52] Cyfoeth Naturiol Cymru / Lleihau anghydraddoldebau iechyd

[53] psb-well-being-plan.pdf (thecarmarthenshirewewant.wales)

[54] Cynllun gweithredu adfer natur | LLYW. CYMRU

[55] Home | Convention on Biological Diversity (cbd.int)

[56] Biodiversity strategy for 2030 (europa.eu)

[57] Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin (llyw.cymru)

[58] tan16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored.pdf (gov.wales)

[59] Partneriaeth Natur Sir Gâr (llyw.cymru)

[60]https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1222445/cynllun-adfer-natur-sir-gaerfyrddin-rhan-4.pdf

[61] Ceir rhestr lawn o rywogaethau a chynefinoedd a restrir o dan A7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) i'w gweld yma: https://www.biodiversitywales.org.uk/Environment-Wales-Bill

[62] Argraffiad 11 (paragraff 6.4.9)

[63] resilient-ecological-networks-practitioner-guide.pdf (cyfoethnaturiol.cymru)

[64] Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans AC0000849444. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata. Yn cynnwys data a ddarparwyd gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol.

[65] Tackling Air Pollution With Trees - Woodland Trust

[66] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth. © Hawlfraint y Goron and Hawl Cronfa Ddata 2022 Arolwg Ordnans [100021242]. Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawl Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys Data Arolwg Ordnans. Rhif Trwydded Arolwg Ordnans AC0000849444. Hawlfraint y Goron a Hawl Cronfa Ddata.

[67] Gweler y papur pwnc ar ffosffad i gael manylion llawn.

[68] Cyfeirir at ôl-nodyn 3.

[69] Gweler tudalennau 42 a 42 Guidance Note 042 Green Infrastructure Assessments (final June 2021 (cyfoethnaturiol.cymru)